

# Y Cwricwlwm Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) mewn Addysg Bellach: Creu cwricwlwm yn seiliedig ar fedrau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Medi 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys Tudalen


**Crynodeb gweithredol ..... 1**

**Cyflwyniad ..... 4**

**Cefndir ..... 6**

**Argymhellion ..... 10**

**Y cyd-destun presennol ..... 12**

Y ddarpariaeth bresennol o ran MBA ledled Cymru ..... 12

Gwybodaeth am MBA ar wefannau ..... 16

Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY) ..... 16

Cynnydd ers ein hadolygiad yn 2017 ..... 17

**Y strwythur cwricwlwm presennol ..... 19**

Llwybrau 1 a 2 ..... 19

Llwybr 3 ..... 21

Llwybr 4 ..... 23

Sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant ..... 28

Manylebau rhaglenni MBA presennol ..... 29

**Arwain maes cwricwlwm MBA ..... 35**

Asesiadau cychwynnol, gosod targedau a chofnodi cynnydd ..... 35

Sicrhau ansawdd a hunanwerthuso ..... 40

Dysgu proffesiynol ..... 41

Cysylltiadau ag ysgolion arbennig a gynhelir ..... 43

**Effaith diwygio ADY ..... 45**

**Atodiad: Data arolwg dysgwyr ac arolwg staff ..... 50**

**Dulliau a sail y dystiolaeth ..... 60**

Mathau o gasglu tystiolaeth ..... 61

**Geirfa ..... 63**

Niferoedd – symiau a chyfrannau ..... 64

**Cyfeiriadau ..... 65**

## Crynodeb gweithredol

1 Bu gwelliannau nodedig i ddarpariaeth Medrau Byw yn Annibynnol (MBA) yn y sector addysg bellach (AB) ers i ni adrodd ar hyn ddiwethaf yn 2017, yn enwedig mewn personoli dysgu a gwella cydweithio. Fodd bynnag, mae amrywioldeb mewn darpariaeth, asesu ac olrhain anghyson, a gwendidau mewn systemau sicrhau ansawdd yn parhau. Yn ychwanegol, nid yw cynigion cwricwlwm yn alinio'n gyson â chyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n achosi risg o ddiffyg cydymffurfio a deilliannau anghyson ar gyfer dysgwyr. Mae'r adroddiad hwn yn galw am ailffurfweddu'r cwricwlwm MBA i fodel mwy cydlynus, dyheadol, ac yn canolbwyntio ar fedrau, sy'n cynorthwyo dysgwyr yn well i baratoi ar gyfer byw bywydau boddhaus pan fyddant yn oedolion.

2 O fis Medi 2024, mae 12 sefydliad addysg bellach (SAB) yng Nghymru, gan gynnwys Addysg Oedolion Cymru, yn darparu rhaglenni MBA ar gyfer dysgwyr ag ADY, sef cynnydd o un darparwr ers adolygiad thematig Estyn yn 2017. Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yw'r unig sefydliad addysg bellach o hyd nad yw'n cynnig darpariaeth MBA. Cwblhaodd tua 1,700 o ddysgwyr raglenni MBA yn 2023-2024, sy'n adlewyrchu galw cynyddol.

3 Mae rhaglenni MBA yn gwasanaethu dysgwyr sydd ag amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys anawsterau ac anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol a dwys, cyflyrau'r sbectrwm awtistig, ac anghenion cymdeithasol neu iechyd meddwl. Maent hefyd yn darparu ar gyfer dysgwyr y tarfwyd ar eu profiadau addysgol ac sy'n meddu ar ychydig iawn o gymwysterau. Er bod rhai dysgwyr yn ymuno pan fyddant yn 16 oed, mae dysgwyr eraill yn dechrau pan fyddant yn 19 oed o ysgolion arbennig.

4 Caiff mynediad i raglenni MBA ei lywio gan asesiadau lefel coleg, gan ddefnyddio Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU), ac o bryd i'w gilydd, Cynlluniau Addysg, Gofal ac Iechyd ar gyfer dysgwyr o Loegr. Pan mae darpariaeth yn anaddas, gallai dysgwyr gael eu cyfeirio i golegau arbenigol annibynnol.

5 Mae Medr yn cydnabod cost ychwanegol cefnogi dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu. Mae dysgwyr MBA yn derbyn cyllid gwahaniaethol trwy strwythurau cyllido cyrsiau, ac weithiau trwy gymorth dysgu ychwanegol (CDA). Caiff gwybodaeth allweddol ei holrhain trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC), sy'n casglu data ar gyfraddau cwblhau cyrsiau a chymwysterau. Nid oes casgliad cenedlaethol o ddata cyrchfannau ar gyfer y dysgwyr hyn.

6 Nododd adolygiad Estyn yn 2017 fod diffyg systemau asesu ac olrhain cadarn, gorddibyniaeth ar gymwysterau i fesur cynnydd, a ffocws annigonol ar fedrau bywyd,

annibyniaeth, a chyflogadwyedd. Arweiniodd hyn at bum argymhelliad, gan sbarduno diwygiadau, yn cynnwys mabwysiadu'r fframwaith Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad (RARPA), gostyngiad mewn dysgu achrededig amhriodol, a symud i gwricwla personoledig, yn seiliedig ar fedrau. Er y gwnaed llawer o welliannau, mae anghysondebau mewn ansawdd yn parhau, yn enwedig mewn asesiadau cychwynnol ac integreiddio CDU.

7 Mae llwybrau 1 a 2 yn gwasanaethu dysgwyr â'r anghenion mwyaf cymhleth. Fodd bynnag, mae anghysondeb mewn dehongli proffiliau dysgwyr yn arwain at amrywiad o ran pa ddysgwyr a all ddilyn y llwybrau hyn. Er enghraifft, gallai dysgwyr â phroffil tebyg ddilyn llwybr 1, 2 neu hyd yn oed mewn colegau arbenigol annibynnol yn y pen draw, yn dibynnu ar y cynnig lleol. Nid yw rhai darparwyr yn cynnig eglurder ynghylch hyd rhaglenni a deilliannau disgwyliedig dysgwyr, sy'n peryglu amgyffrediadau fod y coleg yn darparu gweithgareddau yn debyg i wasanaeth dydd yn hytrach na datblygiad dysgu a medrau pwrpasol.

8 Mae llwybr 3 yn darparu ar gyfer y gyfran fwyaf o ddysgwyr ac yn diwallu ystod eang o anghenion dysgu. Mae'n aml yn cynnwys dysgwyr â heriau ymddygiadol neu emosiynol, na nodwyd bod gan lawer ohonynt ADY neu na nodwyd eu bod yn ddysgwr MBA. Mae colegau wedi datblygu cynigion cwricwlwm eang, gan gynnwys sesiynau rhagflas galwedigaethol, hyfforddiant cyflogadwyedd a datblygiad personoledig medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Mae cyflwyno, cynllunio ac asesu'r rhaglenni llwybr 3 hyn yn amrywio'n sylweddol ac yn aml yn cynnwys dysgu achrededig. Mewn rhai darparwyr, mae hyn yn debyg i raglen gyflogadwyedd 16-19 Twf Swyddi Cymru+, ac yn diwallu anghenion dysgwyr tebyg. Mae'n bwysig nodi nad yw pob sefydliad addysg bellach yn cyflwyno Twf Swyddi Cymru+.

9 Mae llwybr 4 yn darparu interniaethau a gefnogir. Er bod y model cyflwyno ar gyfer y llwybr hwn wedi dangos potensial newid bywyd ar gyfer rhai dysgwyr, mae anghysondebau cyflwyno, cyfyngiadau cyllid, a gwahanol ddisgwyliadau dysgwyr, rhieni a/neu ofalwyr, colegau, asiantaethau cyflogaeth a gefnogir a chyflogwyr yn cyfyngu ar ei effaith.

10 Mae arferion sicrhau ansawdd ar draws sefydliadau addysg bellach yn esblygu ond yn parhau yn anghyson o fewn gwahanol sefyllfaoedd, ac ar eu traws. Mae darparwyr cryf yn alinio hunanwerthuso â chyflawniad targedau gan ddysgwyr, yn defnyddio prosesau arsylwi trylwyr, ac yn cynnwys dysgwyr a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, mae llawer o golegau'n nodi bod monitro cynnydd, yn enwedig ar gyfer dysgu heb ei achredu, yn faes allweddol sydd angen ei wella.

11 Mae manylebau rhaglenni presennol yn gor-bwysleisio namau dysgwyr yn hytrach na'u hanghenion a'u nodau dysgu. Mae'r pedwar 'piler dysgu' (iechyd a lles, cynhwysiant

cymunedol, byw yn annibynnol, a chyflogadwyedd) yn cael eu diffinio'n anghyson, nid ydynt yn cael eu deall yn dda, ac weithiau, cânt eu cymhwyso'n anghywir. Mae llawer o'r farn fod diffyg dyhead ac eglurder yn y derminoleg bresennol, gan gynnwys y term 'MBA'.

12 Mae sefydliadau addysg bellach yn gwella cymorth pontio o ysgolion, wedi'i gynorthwyo gan gydweithio cynyddol. Fodd bynnag, mae problemau'n parhau, gan gynnwys cwricwla nad ydynt yn alinio'n gywir, diffyg cysondeb yng nghynnwys CDU, a dysgwyr yn dechrau yn y coleg heb CDU.

13 Nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. Dau goleg yn unig sy'n cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel mater o drefn, ac ychydig iawn o ddarparwyr eraill sy'n dweud eu bod yn gallu darparu hyn os gofynnir amdani, ond anaml mae hyn yn digwydd. O ganlyniad, yn rhy aml, gall dysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf fanteisio ar ddarpariaeth MBA trwy gyfrwng y Saesneg yn unig.

14 Er bod cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi ehangu, cânt eu halinio'n anghyson â gofynion penodol addysgu ac asesu MBA. Nid oes gan lawer o golegau gynlluniau datblygiad proffesiynol teilwredig ar gyfer staff MBA, ac mae gwerthuso sut mae dysgu proffesiynol yn effeithio ar ddeilliannau dysgwyr yn parhau i fod yn gyfyngedig.

15 Mae diwygio ADY wedi cynyddu cydweithio ar draws rhanddeiliaid, er bod y pontio o'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) wedi creu heriau. Yn aml, caiff CDUau eu gohirio, maent yn anghyflawn neu nid ydynt yn alinio ag anghenion ôl-16. Mae'r baich gweinyddol ar golegau i ddatblygu, cynnal a rhannu CDUau wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae anghysondebau yn ansawdd CDU yn rhwystro cynllunio cwricwlwm effeithiol ar gyfer datblygiad medrau ystyrlon ac unigoledig.

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan Medr[1] ym mis Awst 2024. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ansawdd darpariaeth medrau byw yn annibynnol mewn sefydliadau addysg bellach ledled Cymru.

Mae darpariaeth medrau byw yn annibynnol (MBA) wedi'i dylunio i ddarparu dull ymarferol ar gyfer ennill ac atgyfnerthu medrau i baratoi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar gyfer bywyd oedolyn. Mae ymagwedd at gyflwyno yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn sail i'r cwricwlwm, gan achredu dysgu lle mae o fudd i'r dysgwr yn unig.

O dan fanylebau rhaglenni Medr (a manylebau Llywodraeth Cymru, gynt), mae pedair rhaglen dysgu amser llawn, sef:

- Llwybr 1 – ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac/neu anableddau dysgu dwys
- Llwybr 2 – ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac/neu anableddau dysgu difrifol
- Llwybr 3 – ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol ac/neu anawsterau ac/neu anableddau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl
- Llwybr 4 – ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac/neu anableddau dysgu ar interniaethau a gefnogir

Mae pob llwybr MBA wedi'i greu o gwmpas craidd sy'n cynnwys pedwar piler dysgu, sef:

- Iechyd a Lles
- Cyflogadwyedd
- Byw yn Annibynnol
- Cynhwysiant Cymunedol

Disgrifir bod medrau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn nodweddion dysgu allweddol o dan bob llwybr, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y medrau hyn yn cael eu hymgorffori o fewn pob un o'r pedwar piler. Mae'r ddarpariaeth wedi'i theilwra i bob un o'r pedwar llwybr a bydd yn ddibynnol ar fedrau dysgwyr a'u cyrchfannau tymor hir. Gallai rhaglenni hefyd gynnwys profiad yn gysylltiedig â gwaith, ynghyd â chymwysterau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill. Rhaid i gynnwys gweithgareddau neu weithgareddau dysgu asesadwy eraill ychwanegu gwerth a diwallu anghenion penodol dysgwyr, gan eu cefnogi i fodloni eu cyrchfannau tymor hir.

[1] Mae Medr, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn gorff addysg drydyddol ac yn cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru, sy'n goruchwylio addysg ac ymchwil ôl-16 yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â 10 o'r 12 sefydliad addysg bellach yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth MBA ar hyn o bryd, yn ogystal â gweithgarwch arolygu diweddar yn y ddau arall. Nid yw pob un o'r darparwyr hyn yn defnyddio'r term 'MBA' i enwi'r ddarpariaeth hon, ond mae pob un ohonynt yn defnyddio'r manylebau rhaglenni MBA i ddiwallu eu hanghenion lleol.

Roedd yr ymweliadau'n cynnwys cyfarfod ag arweinwyr, cyfarfod â dysgwyr, teithiau dysgu a chraffu ar ddogfennau. Defnyddiom dystiolaeth o'n gweithgarwch arolygu parhaus ac ymweliadau cyswllt â cholegau addysg bellach, hefyd. Cwblhaom ystod o drafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys staff ColegauCymru, Medr, staff ôl-16 awdurdodau lleol, arweinwyr mewn ysgolion arbennig a gynhelir, asiantaethau interniaethau a gefnogir a chyflogwyr interniaethau a gefnogir.

Casglom adborth gan staff a dysgwyr ar raglenni MBA trwy holiaduron dwyieithog, a oedd hefyd ar gael mewn fformat symbolau hawdd ei ddarllen ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fyddai pob dysgwr wedi gallu cyfleu ei adborth yn llawn gan ddefnyddio'r dull hwn oherwydd ei anghenion dysgu ychwanegol. Er mwyn lliniaru'r cyfyngiad hwn, fe wnaethom gyfarfod hefyd â chroestoriad o ddysgwyr yn ystod pob ymweliad â sefydliad, a darparu arweiniad o fewn yr holiadur am sut gallai staff gynorthwyo dysgwyr i roi eu hadborth.

Adolygom ystod o ddogfennau a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg bellach, ColegauCymru, Llywodraeth Cymru a Medr. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau'r cwricwlwm, manylebau rhaglenni, astudiaethau achos, amserlenni, data am ddeilliannau dysgwyr ac adolygiadau cymheiriaid.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau 7 Hydref 2024, edrychom ar wefannau'r darparwyr i werthuso defnyddioldeb a hygyrchedd y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd a'r darparwyr a gymerodd ran yn yr adran dulliau a thystiolaeth.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Medr, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, darparwyr addysg, dysgwyr, rhieni a gofalwyr am bobl ifanc ag ADY ac unrhyw sefydliadau partner allweddol eraill sydd â rôl mewn cynorthwyo pobl ifanc ag ADY i gael mynediad at addysg bellach.

> **"Mae bod yn y coleg yn mynd â chi'r tu allan i'ch man cyfforddus, ac mae hynny'n eich helpu i dyfu."**

- **Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

## Cefndir

Ar hyn o bryd, mae 12 sefydliad addysg bellach yn darparu rhaglenni MBA ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae hyn yn cynnwys 11 coleg addysg bellach ac Addysg Oedolion Cymru (AOC). Mae hyn yn cynrychioli ychwanegu un darparwr newydd ers adolygiad thematig Estyn yn y maes hwn yn 2017. Erbyn hyn, mae AOC yn cynnig y ddarpariaeth hon i ychydig iawn o ddysgwyr yng Ngheredigion. Coleg Chweched Dosbarth Catholig Dewi Sant yng Nghaerdydd yw'r unig sefydliad addysg bellach yng Nghymru nad yw'n darparu rhaglenni o'r fath.

Yn 2023-2024, cwblhaodd tua 1,700 o ddysgwyr[2] raglenni MBA mewn colegau addysg bellach yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o ryw 300 ers adeg yr adolygiad thematig diwethaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yr adroddiad hwn yn ystyried yn unig y rhaglenni MBA amser llawn a gyflwynir mewn colegau addysg bellach. Mae mwyafrif y sefydliadau addysg bellach hefyd yn cyflwyno rhaglenni MBA rhan-amser ar gyfer dysgwyr hŷn, na wnaethom eu gwerthuso yn rhan o'r adroddiad hwn.

Mae un coleg addysg bellach hefyd yn cynnig addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr ag ADY, yn ogystal â gofal preswyl trwy goleg arbenigol annibynnol atodol (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel sefydliad ôl-16 arbenigol annibynnol). Fodd bynnag, caiff lleoliadau yng Ngholeg Bevan (sydd wedi'i leoli yng Ngholeg Pen-y-bont) eu hariannu trwy Lywodraeth Cymru neu drefniadau cyllido awdurdodau lleol ar gyfer colegau arbenigol annibynnol, ac nid ydynt yn ffurfio rhan o'r adolygiad hwn.

At ddibenion yr adroddiad hwn, mae'r term rhaglenni MBA yn cyfeirio at yr holl raglenni dysgu ar wahân o fewn colegau addysg bellach ar gyfer dysgwyr ag anawsterau neu anableddau dysgu. Mae gan y dysgwyr hyn ystod eang o anawsterau ac anableddau dysgu, yn cynnwys anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol, cyflwr y sbectrwm awtistig (CSA) ac, mewn ychydig o achosion, dysgwyr y disgrifir bod ganddynt anawsterau dysgu dwys a lluosog. Nid yw pob dysgwr ar raglenni MBA yn ymuno â sefydliadau addysg bellach o ysgolion arbennig a gynhelir, ac felly, o ran dulliau o fewn adrannau MBA, mae angen pontio o ystod o leoliadau, yn cynnwys canolfannau adnoddau arbenigol, ysgolion prif ffrwd, addysg yn y cartref ac unedau cyfeirio disgyblion. Mewn llawer o golegau, mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn cynnwys cyrsiau ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno

[2] Yn ôl data cyhoeddedig Medr, Chwefror 2025 https://www.medr.cymru/cy/Newyddion/sta-medr-06-2025-addysg-bellach-dysgu-seiliedig-ar-waith-a-dysgu-cymunedol-awst-2023-i-orffennaf-2024/

â'r coleg gyda medrau islaw'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer cael eu derbyn i gyrsiau prif ffrwd ond nad oes ganddynt efallai anawsterau neu anableddau dysgu. Efallai bod llawer o'r grŵp hwn o ddysgwyr hefyd wedi profi heriau difrifol â phresenoldeb ac ymgysylltu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol am amrywiaeth o resymau cymdeithasol a phersonol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth MBA bron ym mhob coleg addysg bellach yn cynnwys dysgwyr ag ystod eang iawn o anghenion a galluoedd.

Mae bron pob coleg addysg bellach yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr o 16 mlwydd oed. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr yn ymuno â'r coleg hyd nes eu bod yn 19 oed, yn enwedig os ydynt yn mynychu ysgol arbennig a gynhelir sydd â'i darpariaeth ôl-16 ei hun. Mewn ychydig iawn o achosion, bydd dysgwyr yn ymuno â'r coleg addysg bellach ar ôl cwblhau cwrs mewn coleg arbenigol annibynnol gan nad oeddent yn gallu cael mynediad at amgylchedd addysg bellach prif ffrwd wrth iddynt adael addysg orfodol.

Mae dysgwyr yn gwneud cais i ddilyn y cyrsiau hyn trwy brosesau derbyniadau sy'n benodol i golegau. I'r rhan fwyaf o ddysgwyr, mae hyn yn cynnwys y coleg yn adolygu'r CDU (neu gyfwerth) i asesu a chadarnhau y gall gynnig y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) i ddiwallu ADY pob dysgwr. Pan na all coleg ddiwallu anghenion dysgwyr, yn nodweddiadol, gallant wedyn wneud cais i goleg arbenigol annibynnol. Fodd bynnag, mae hyn ond yn wir os yw'r awdurdod lleol yn cytuno cynnal CDU dysgwr ac yn cytuno bod ganddo 'angen rhesymol am addysg a hyfforddiant'.

O fewn y Fframwaith Cyllido Ôl-16, mae darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol a lluosog ar gyrsiau MBA yn derbyn cyllid i dalu am gost uwch rhaglenni dysgu ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr, fel cymarebau staffio uwch. Yn ychwanegol, mae cyllid ar gael trwy'r mecanwaith cymorth dysgu ychwanegol (CDY) ar gyfer ychydig o ddysgwyr unigol ar raglenni MBA na fyddent yn gallu ymdopi heb lefelau uwch o gymorth. O ystyried bod darpariaeth MBA yn cael cyllid estynedig, mae'n ymddangos bod Medr yn cydnabod y costau ychwanegol i sicrhau darpariaeth sydd wedi'i chynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ystod eang o wybodaeth am ddeilliannau dysgwyr sydd wedi eu cofrestru mewn colegau addysg bellach, gan gynnwys dysgwyr ar raglenni MBA, trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (CDGOC). Mae CDGOC yn casglu gwybodaeth am gyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant ar gyfer gweithgareddau dysgu. Caiff cyrchfannau dysgwyr eu paru â 12 cod rhagosodedig, sy'n mynd i'r afael â chategorïau eang ar gyfer addysg barhaus, cyflogaeth neu gyrchfannau eraill. Rhennir y wybodaeth hon gyda darparwyr, ac yn fwy diweddar, Medr.

Yn 2017, cwblhaodd Estyn adolygiad o'r meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach. Y prif ganfyddiadau oedd nad oedd y rhan fwyaf o

golegau'n defnyddio ystod ddigon eang o ddata i fesur cynnydd dysgwyr, yn enwedig wrth gofnodi cynnydd mewn datblygu medrau. Hefyd, mewn llawer o golegau, roedd systemau olrhain a monitro cynnydd dysgwyr ar gyrsiau MBA yn rhy ddibynnol ar ennill cymwysterau. I lawer o ddysgwyr ag anghenion cymhleth, nid yw'r dull hwn yn darparu mesur cywir na pherthnasol o gynnydd. Mewn llawer o golegau, nid oedd rhaglenni dysgu yn rhoi digon o ystyriaeth i gyrchfannau bwriadedig dysgwyr nac yn trefnu darpariaeth addas ar gyfer datblygu annibyniaeth, cyflogadwyedd a medrau bywyd dysgwyr.

Gadawodd yr adroddiad bump o argymhellion ar gyfer colegau sy'n cyflwyno cyrsiau MBA, sef:

**A1 Nodi medrau a galluoedd ehangach dysgwyr yn ystod asesiadau cychwynnol a chynnwys ffocws addas ar gyfathrebu, annibyniaeth, cyflogadwyedd a lles o fewn y rhain**

**A2 Gwneud yn siŵr fod cynlluniau dysgu unigol yn adlewyrchu deilliannau asesiadau cychwynnol a'u bod yn cynnwys targedau penodol, mesuradwy sy'n cysylltu'n glir â nodau tymor hir a chyrchfannau tebygol dysgwyr**

**A3 Cynllunio rhaglenni dysgu medrau byw yn annibynnol sydd:**

- **yn ddigon heriol**
- **yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu medrau sy'n berthnasol i anghenion dysgwyr a'u cyrchfannau tebygol wrth iddynt adael y coleg**
- **yn cynnwys cydbwysedd priodol rhwng cwblhau cymwysterau a gweithgareddau dysgu**

**A4 Rhoi systemau dibynadwy ar waith i olrhain cynnydd pob un o'r dysgwyr o ran eu mannau cychwyn unigol**

**A5 Olrhain cyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael y maes dysgu neu'r coleg yn gywir**

Ar ôl cyhoeddi adroddiad thematig 2017, roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi colegau â datblygu'r llwybrau MBA presennol. Ledled Cymru, symudodd colegau at ddulliau newydd o fonitro cynnydd dysgwyr, a'r un mwyaf cyffredin yw 'Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad' (RARPA). Hefyd, lleihaon nhw'r ffocws ar ddysgu achrededig a symud tuag at ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn at gynllunio'r cwricwlwm. Mae'r adroddiad thematig presennol hwn yn gwerthuso effaith y newidiadau hyn ac yn nodi meysydd a argymhellir ar gyfer gwella ymhellach.

**"Mae'r coleg wedi dangos i mi fy mod i'n gallu gwneud unrhyw beth. Oherwydd y coleg, rwy'n gwirfoddoli yng ngorsaf radio Blaenau Gwent FM ac mae gen i fy rhaglen fy hun."**

**-  Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

## Argymhellion

**Dylai Medr:**

A1 Ddiwygio manylebau rhaglenni MBA i:

- sicrhau eu bod yn ddyheadol, yn adlewyrchu ADY dysgwyr yn well, yn cynnwys disgwyliadau clir o ran ddeilliannau a dilyniant dysgwyr, a chynorthwyo sefydliadau addysg bellach i ganolbwyntio ar yr unigolyn
- alinio â chyfrifoldebau statudol colegau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) a blaenoriaethau cenedlaethol ehangach, yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

A2 Sicrhau bod dysgwyr wedi deall targedau a llwybrau dilyniant yn glir trwy ddarparu arweiniad i'r sector ar feysydd MBA pwysig, fel:

- asesiad gwaelodlin yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n ymgorffori nodau datblygiad personol
- cynllunio'r cwricwlwm yn seiliedig ar ddeilliannau, gan gynnwys dysgu achrededig
- darpariaeth ran-amser
- pa ddata cyrchfannau i'w gofnodi, a sut i'w ddefnyddio wrth gynllunio ar gyfer gwella
- dilyniant o fewn llwybrau dysgu, a rhyngddynt

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A3 Sicrhau bod yr holl bobl ifanc ag ADY yn gallu cael addysg a hyfforddiant ôl-statudol yn unol â'u cyfoedion nad oes ganddynt ADY, yn Gymraeg ac yn Saesneg

A4 Sicrhau bod diweddariadau i'r Cod ADY yn darparu canllawiau clir i awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach ar sut i weithio mewn partneriaeth i gefnogi pontio gwell i addysg drydyddol, ac yn benodol ar raglenni MBA, trwy osod targedau priodol, drafftio CDU a chynllunio'r cwricwlwm

A5 Darparu mwy o ganllawiau cenedlaethol a mecanweithiau atebolrwydd i sicrhau gweithredu a sicrhau ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn gyson ar draws pob rhanbarth

**Dylai sefydliadau addysg bellach:**

A6 Ymwreiddio cysylltiadau systematig rhwng gosod targedau RARPA a deilliannau bwriadedig CDU i sicrhau cydlyniad statudol

A7 Darparu dysgu proffesiynol ar gyfer staff addysgu a staff cymorth sydd wedi’i deilwra’n briodol i ddiwallu ehangder yr anghenion dysgu ychwanegol y mae dysgwyr yn eu profi, yn ogystal â’r addysgeg i gefnogi hyn, gan gynnwys sicrhau bod staff sy’n cefnogi datblygiad medrau cyflogadwyedd dysgwyr ac mewn lleoliadau gwaith wedi cael hyfforddiant addas

A8 Gweithio gyda chyflogwyr lleol i nodi bylchau mewn medrau a allai gael eu llenwi gan ddysgwyr fel hyfforddeion neu interniaid, gan arwain at wirfoddoli, prentisiaethau neu gyflogaeth am dâl

A9 Sicrhau bod cyraeddiadau a chyrchfannau dysgwyr MBA yn llywio prosesau hunanwerthuso, gan gynnwys coladu a gwerthuso nifer y dysgwyr sy’n rhoi’r gorau i ddilyn cyrsiau MBA a’r rhesymau dros adael

A10 Sicrhau bod eu gwefannau’n darparu gwybodaeth hygyrch ar gyfer pobl ifanc ag ADY am y cyrsiau sydd ar gael iddynt

A11 Sicrhau bod yr holl ddysgwyr y dosbarthwyd bod ganddynt ADY yn bodloni’r diffiniad statudol ac yn meddu ar CDU cyfredol, o ansawdd uchel

**Dylai awdurdodau lleol:**

A12 Sicrhau bod y cyngor a’r arweiniad y maent yn eu rhoi i bobl ifanc ag ADY sy’n gadael addysg statudol yn glir ac yn adlewyrchu eu strategaeth ADY ôl-16, gan weithio gyda Gyrfa Cymru, fel y bo’n briodol

A13 Gweithio gyda sefydliadau addysg bellach, cyflogwyr lleol a cholegau arbenigol annibynnol i sicrhau mynediad teg at y ddarpariaeth addysg bellach a hyfforddiant fwyaf addas ar gyfer pob dysgwr ag ADY, yn Gymraeg ac yn Saesneg

A14 Cynorthwyo ysgolion ac UCDau i sicrhau dealltwriaeth gyson o gyfreithlondeb a phwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn amserol wrth i ddisgyblion symud ymlaen i addysg bellach a hyfforddiant, gan gynnwys rhannu CDUau

A15 Ffurfioli trefniadau i gynorthwyo’r dysgwyr hynny ag ADY sy’n rhoi’r gorau i addysg bellach o ran adolygu, diweddaru neu derfynu CDU yn briodol, a darparu unrhyw gymorth arall yn unol â’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

# Y cyd-destun presennol


### Y ddarpariaeth bresennol o ran MBA ledled Cymru

Yn hydref 2024, cwblhaodd 11 coleg addysg bellach ac Addysg Oedolion Cymru ddatganiad data (ar ffurf arolwg ar-lein) yn esbonio'u darpariaeth bresennol o fewn adrannau MBA. Yn ystod y cyfnod hwn, dywedodd colegau fod ychydig dros 2,000 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar y cyrsiau hyn ledled Cymru. Mewn llawer o golegau, roedd rhwng 100-300 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar gyrsiau MBA yn eu coleg.


Roedd pob darparwr yn cynnig llwybr 2, y rhan fwyaf ohonynt yn cynnig llwybr 3 a 4 (91.7%) a lleiafrif ohonynt yn cynnig llwybr 1 neu gwrs arall (33.3%). Dau yn unig o 12 (16.7%) darparwr oedd yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Dywedodd un coleg ychwanegol ei fod yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth hon ar hyn o bryd.

Yn ein harolwg staff, dywedodd 27.8% eu bod yn addysgu dysgwyr a oedd yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf, a dywedodd 40.0% o'r rhain eu bod yn cael eu haddysgu yn Saesneg. Roedd tua hanner y dysgwyr a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo y gallent ddewis dysgu yn Gymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd â'r adborth llafar a gawsom yn ystod ymweliadau â cholegau; yn aml, darpariaeth cyfrwng Saesneg yn unig oedd ar gael i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg.

**Ffigurau 1 a 2. Ymatebion i: "Ydych chi'n addysgu dysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf?" ac "Ym mha iaith maen nhw'n cael eu haddysgu?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 79 o staff*




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 20 o staff; dewisodd 2 aelod arall o 2 staff y ddau opsiwn*

Dywedodd darparwyr fod tua 90 o gynorthwywyr addysgu a staff cymorth, 60 o athrawon neu ddarlithwyr a 12 arweinydd yn gweithio mewn darpariaethau MBA ledled Cymru i gyd.

### Grŵp Llandrillo Menai: Cyflwyno dwyieithog

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi manteision dwyieithrwydd i'w holl ddysgwyr o ran ymestyn cyfleoedd cymdeithasol, diwylliannol a galwedigaethol. Cyflwynir pob rhaglen MBA yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. O ganlyniad, gall dysgwyr gyfathrebu yn eu dewis iaith, ac ochr yn ochr â hyn, maent yn cael cyfleoedd anffurfiol bob dydd i ddysgu'r iaith arall y gallent fod yn llai cyfarwydd â hi. Mae'r grŵp colegau yn rhannu arfer dda wrth weithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gan ddefnyddio ap 'Sgiliaith'.

Dywedodd lleiafrif o ddarparwyr eu bod yn cynnig darpariaeth ddynodedig ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu ar safle un coleg yn unig, tra bod llawer ohonynt yn cynnig cyrsiau MBA mewn rhwng dau a phum safle ledled eu hardal. Mae colegau Cymru yn amrywio o ran maint, ardal ddaearyddol a nifer y safleoedd. Mae hyn yn amlygu'r amrywioldeb mewn amser teithio ar gyfer dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth MBA ym mhob coleg. Mae'n bwysig nodi bod colegau a dysgwyr ledled Cymru yn sôn am heriau ar gyfer cludiant, hyd yn oed ar gyfer y dysgwyr hynny heb ADY.

Hefyd, dywedodd colegau fod heriau yn amrywioldeb y ddarpariaeth cludiant ar gyfer y dysgwyr hyn, sy'n aml yn methu teithio'n annibynnol. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, mae awdurdodau lleol yn darparu cludiant i golegau. Fodd bynnag, yn aml, mae hyn yn amrywio hyd yn oed o fewn colegau sy'n cynnwys mwy nag un awdurdod

lleol. Gall teithio i’r coleg ac oddi yno fod yn hynod heriol i ddysgwyr sy’n methu defnyddio cludiant cyhoeddus yn ddiogel yn annibynnol, ac mae diffyg cludiant priodol yn rhoi dysgwyr mewn perygl o gael eu heithrio o addysg bellach oherwydd na allant fynychu’r coleg. Dywedodd colegau fod cludiant yn cael ei grybwyll yn ffactor pan roedd dysgwyr yn rhoi’r gorau i ddilyn cyrsiau, er nad yw’n glir ar ba gyfran o ddysgwyr mae hyn yn effeithio, ac os yw’n cael effaith anghymesur ar ddysgwyr ag ADY neu ar gyrsiau MBA, sy’n tanlinellu’r angen i brosesau adolygu CDU statudol barhau ar ôl iddynt dynnu’n ôl o gyrsiau, er mwyn diogelu hawliau dysgwyr i DDdY addas. Mae hyn yn dangos amrywioldeb y tirlun presennol o ran addysg ôl-16 a’r cymhlethdod y tu ôl i feysydd, fel rhoi’r gorau i ddilyn cyrsiau, sy’n aml ddim yn adlewyrchu ansawdd y cwricwlwm a gynigir mewn darparwr yn gyfan gwbl.

Dywedodd mwyafrif y darparwyr fod ganddynt gysylltiadau ag ysgolion arbennig a gynhelir, a oedd yn cynnwys darpariaeth ar y safle yn y coleg gan alluogi dysgwyr hŷn i brofi agweddau ar fywyd coleg.

Dywedodd colegau fod nifer y dysgwyr sy’n rhoi’r gorau i ddilyn rhaglenni MBA, gan gynnwys dysgwyr sy’n tynnu’n ôl o’r rhaglenni’n gynnar, wedi cynyddu ychydig dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn Hydref 2024, dywedodd colegau fod hyn wedi cynyddu o ryw 100 o ddysgwyr bob blwyddyn, i 150. Fodd bynnag, mae cyfraddau unigol yn amrywio rhwng colegau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ystod ymweliadau, dywedodd ychydig iawn o golegau fod hyn oherwydd y cynnydd mewn dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM) a bod cyfraddau cadw dysgwyr ag anawsterau dysgu (nad oes ganddynt CEIM) yn gryfach, ar y cyfan.

Er bod disgrifwyr cyrsiau yn awgrymu y dylai bron pob dysgwr ar y cyrsiau hyn gael CDU neu gyfwerth, dywedodd sefydliadau addysg bellach mai 68% yn unig o ddysgwyr ar raglenni MBA sydd â dogfen ADY statudol yn amlinellu eu hanghenion dysgu a’r ddarpariaeth sy’n ofynnol i’w diwallu. Dywedodd darparwyr, pan fydd gan ddysgwyr gynllun statudol yn gysylltiedig â’u ADY, fod gan ryw hanner y dysgwyr CDU (50%), mae gan ryw hanner ohonynt gynllun dysgu a medrau (CDM)[3] (46%), ac mae gan ychydig iawn ohonynt ddatganiad neu gynllun addysg, iechyd a gofal (5%).


Dywedodd y rhan fwyaf o ddarparwyr (91.7%) y gallai dysgwyr ddilyn cymwysterau wedi’u hachredu’n ffurfiol yn rhan o raglenni MBA. Er enghraifft, mewn meysydd galwedigaethol, gallai dysgwyr ddilyn ardystiad hylendid bwyd neu iechyd a diogelwch. Dywedodd mwyafrif (66.7%) y colegau fod dysgwyr yn gweithio tuag at achrediad ochr yn ochr â rhaglenni MBA. Yn ôl y data a gyflwynwyd gan golegau yn hydref 2024, lleiafrif (33.7%) o ddysgwyr yn unig ar raglenni MBA oedd yn gweithio tuag at achrediad neu

[3] CDMau oedd y cynllun angenrheidiol cyn diwygio ADY a byddant yn dod yn llai cyffredin dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf wrth i ddysgwyr yng Nghymru ddod trwy’r system drydyddol gyda CDUau.

gymwysterau yn rhan o'u rhaglenni dysgu.

Dywedodd darparwyr fod tua hanner y dysgwyr wedi eu cofrestru ar lwybr 3, roedd lleiafrif wedi eu cofrestru ar lwybr 2 ac ychydig iawn ohonynt wedi eu cofrestru ar lwybr 4 neu lwybr 1. Dywedodd darparwyr fod ychydig o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar gyrsiau eraill yn rhan o ddarpariaeth MBA, er enghraifft Sylfaen i Ddysgu: Cam Ymlaen.

**Ffigur 3. Faint o ddysgwyr sydd wedi eu cofrestru ar bob llwybr?**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 12 o ddarparwyr*

Mewn addysg bellach, mae cyfnod o astudio amser llawn yn golygu cyfnod astudio ar un cwrs dynodedig neu fwy sy'n cynnwys 500 neu fwy o oriau cyswllt yn ystod y flwyddyn academaidd. Dywedodd colegau, yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025, fod llawer (78.5%) o ddysgwyr MBA wedi eu cofrestru'n amser llawn, roedd ychydig o ddysgwyr (15.4%) wedi eu cofrestru'n rhan-amser, ac roedd gan ychydig iawn ohonynt (6%) drefniadau eraill.

Amlygodd un coleg bartneriaid comisiynu i gyflwyno cyrsiau MBA trwy unedau dysgu achrededig penodol.

Ledled Cymru, roedd y cynnig MBA yn amrywio'n sylweddol, gyda mwyafrif helaeth y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno yn Saesneg ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol a dysgwyr niwrowahanol ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. O ganlyniad, roedd cynigion cwricwlwm ar gyfer dysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu difrifol a dwys mewn sefydliadau addysg bellach a dysgwyr MBA sy'n

siarad Cymraeg wedi'u cyfyngu i leiafrif o golegau. Pan roedd colegau'n cynnig cyrsiau llwybr 1, roedd nifer y dysgwyr ar y cyrsiau hyn yn isel iawn o gymharu. Mae llawer o ddysgwyr a allai fod yn gymwys i fanteisio ar ddarpariaeth llwybr 1 yn aros mewn ysgolion arbennig a gynhelir ac wedyn yn aml yn symud ymlaen i golegau arbenigol annibynnol neu ddarpariaeth ddydd.

## Gwybodaeth am MBA ar wefannau

Pan adolygom ni wefannau sefydliadau addysg bellach ym mis Hydref 2024, nodom y canlynol:

- Nid oedd gan unrhyw sefydliad addysg bellach dudalennau gwe dynodedig ar gyrsiau MBA na gwybodaeth hygyrch ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau ac anableddau dysgu.
- Roedd swyddogaeth chwilio am gyrsiau ar y rhan fwyaf o wefannau, ond byddai angen i chi wybod beth oedd enwau cyrsiau i chwilio amdanynt, gan nad yw'r term MBA neu deitlau'r llwybrau yn cael eu defnyddio bob amser.
- Un coleg yn unig oedd yn cynnig unrhyw wybodaeth ac arweiniad ar gyfer dysgwyr nad yw eu ADY efallai'n gallu cael ei ddiwallu gan y coleg.
- Ychydig iawn o ddarparwyr yn unig sy'n datgan yn eglur fod cyrsiau MBA yn rhydd o ffioedd cyrsiau, ac mae lleiafrif o golegau yn dyfynnu costau diangen, fel ffioedd cofrestru.
- Mewn lleiafrif o achosion, rhoddwyd manylion ar wahân am MBA ac ADY, heb gysylltiad rhyngddynt am wybodaeth berthnasol. Gall hyn helpu'r dysgwyr hynny ag ADY nad ydynt yn dilyn cyrsiau MBA i ddod o hyd i wybodaeth yn haws, ond gallai ei gwneud yn fwy heriol i ddysgwyr MBA ddod o hyd i wybodaeth am gymorth ADY sydd ar gael yn y coleg.

## Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol (CDY)

Mae rhaglenni MBA eisoes yn cael eu hariannu ar gyfradd uwch i gydnabod y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar y dysgwyr hyn. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o golegau'n defnyddio cyfran o'u cyllid CDY i gefnogi dysgwyr ar gyrsiau MBA. Roedd cyfran y dysgwyr ar raglenni MBA a oedd yn derbyn y cyllid hwn yn amrywio'n sylweddol rhwng colegau. Dywedodd ychydig o golegau nad ydynt yn defnyddio unrhyw gyllid CDY ar gyfer y dysgwyr hyn, dywedodd hanner y colegau fod pob un o'r dysgwyr MBA yn manteisio ar y cyllid hwn, ac mae lleiafrif o golegau yn manteisio ar y cyllid hwn ar gyfer 10-35% o ddysgwyr MBA. Pan roedd pob un o'r dysgwyr ar gyrsiau MBA yn manteisio ar gyllid CDY, yn aml, caiff hwn ei ddefnyddio'n briodol ar gyfer trefniadau pontio

estynedig. Nid yw'n glir pam mae cymaint o amrywiad yn y defnydd o gyllid CDY i gefnogi dysgwyr MBA ledled Cymru.

**"Mae'r coleg wedi fy helpu i wneud ffrindiau, coginio ac ysgrifennu."**

**- Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

## Cynnydd ers ein hadolygiad yn 2017

Yn dilyn argymhellion yn adroddiad thematig 2017, 'Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach' (Estyn, 2017), datblygodd Llywodraeth Cymru fanylebau rhaglenni newydd yn cyflwyno'r 4 llwybr MBA. Ers cyflwyno'r cwricwlwm newydd, mae colegau wedi ailgynllunio ymagweddau at addysgu, dysgu ac asesu. Mae'r cwricwlwm bellach yn canolbwyntio ar y pedwar piler MBA a nodwyd, gyda mwy o ffocws ar ddatblygiad medrau personoledig na dysgu achrededig.

Ledled Cymru, roedd colegau'n cydweithio â'i gilydd fel mater o drefn i rannu arfer orau a gwerthuso darpariaeth, er enghraifft trwy waith adolygu cymheiriaid ColegauCymru, gweithgorau, neu ymweliadau targedig rhwng colegau. Fodd bynnag, nododd mwyafrif o golegau fod monitro cynnydd a sicrhau ansawdd dysgu heb ei achredu yn faes i'w wella.

Roedd pob coleg yn defnyddio fframwaith hunanasesu Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad (RARPA) ColegauCymru, ac roeddent yn cymryd rhan yn y fenter cyfnewid cymheiriaid. Fodd bynnag, yn ystod ein sesiynau craffu ar ddogfennau ac ymweliadau â safleoedd, sylwom fod prosesau asesu cychwynnol cyffredinol wedi'u seilio'n bennaf ar y pedwar piler MBA, llythrennedd a rhifedd, yn hytrach nag ystyriaeth gyfannol o anghenion addysg a hyfforddiant dysgwyr unigol.

Er gwaethaf llawer o welliannau yn y cwricwlwm, gallai profiadau dysgu o fewn y pileri MBA fod yn gyfyngedig. Er enghraifft, mewn ychydig o ymweliadau, sylwom fod y piler MBA sy'n dwyn y teitl 'medrau byw yn annibynnol' yn cael ei lywio gan ddatblygu medrau coginio yn hytrach nag ymgorffori datblygiad targedig medrau bywyd ehangach.

Ers cyhoeddi adroddiad thematig 2017, mae agweddau ôl-16 ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (2018) wedi cael eu cyflwyno, a chyfrifoldebau statudol colegau wedi cynyddu. O ganlyniad, nid yw'r gwahanol setiau hyn o arweiniad yn cysylltu'n llawn nac yn integreiddio prosesau adolygu CDU â rhaglenni MBA, y cwricwlwm a phrosesau asesu.

At ei gilydd, sylwom fod colegau'n fwy hyderus yn eu darpariaeth ar lwybrau 3 a 4. Roedd yn ymddangos bod rhaglenni addysg a hyfforddiant wedi'u harwain gan gyrchfannau, wedi'u gyrru gan dargedau, wedi'u cyfyngu gan amser ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn llai datblygedig o fewn llwybrau 1 a 2. Ymhellach, mae tystiolaeth o drafodaethau â darparwyr yn awgrymu y gallai colegau fod yn ansicr ynghylch faint o weithiau y bydd dysgwyr yn ailadrodd llwybrau 1 a 2. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar ddysgu yn seiliedig ar ddeilliannau, dilyniant a chynllunio cyrchfannau. Er y gallai rhai dysgwyr elwa ar ailadrodd rhaglen i gynorthwyo'u dilyniant pellach, dylai hyn ond ddigwydd gyda deilliant bwriadedig unigol cytûn.

Dywedodd sefydliadau addysg bellach fod casglu data ar gyrchfannau dysgwyr pan fyddant yn gadael cyrsiau MBA yn her. Nid oedd mwyafrif y darparwyr yn rhannu data cyrchfannau ar gyfer dysgwyr yn ystod rhan casglu tystiolaeth yr adroddiad hwn. O'r rhai a oedd yn gwneud hynny, roedd ychydig ohonynt ond yn rhannu data dros y flwyddyn neu ddwy flaenorol, neu roedd ganddynt ddata nad oedd wedi'i dorri i lawr yn fuddiol. Hefyd, roedd manylion ynghylch beth mae 'cyrchfan' yn ei olygu, a dealltwriaeth ohono, yn anghyson.

## Y strwythur cwricwlwm presennol

### Llwybrau 1 a 2

Mae llwybrau 1 a 2 wedi eu dylunio i ddiwallu anghenion dysgwyr â'r ADY mwyaf cymhleth y gall sefydliadau addysg bellach ddiwallu eu hanghenion addysg a hyfforddiant. Gallai dysgwyr na all sefydliad addysg bellach ddiwallu eu hanghenion wneud cais i fynychu coleg arbenigol annibynnol. Dywedodd mwyafrif y darparwyr y cyfarfuom â nhw fod eu hawdurdod lleol wedi gofyn iddynt ystyried derbyn dysgwyr mwy cymhleth a chynnig darpariaeth llwybr 1. Cafodd hyn ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith fod y rhan fwyaf o golegau'n gweithio ar draws mwy nag un awdurdod lleol a allai fod â gwahanol ddisgwyliadau ar gyfer y darparwr.

Fodd bynnag, dim ond pedwar o'r 12 sefydliad addysg bellach sy'n cyflwyno darpariaeth MBA yng Nghymru oedd yn cynnig llwybr 1. Er bod pob un o'r 12 sefydliad addysg bellach yn cynnig llwybr 2, yn ystod ein hymweliadau, yn ogystal â mewn trafodaethau â rhanddeiliaid, daeth yn glir fod ADY dysgwyr ar lwybrau 1 neu 2 yn amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr. Gallai proffil dysgwr llwybr 1 mewn un coleg fod yn debyg i broffil ar gyfer dysgwyr llwybr 2 mewn coleg gwahanol.

Gallai'r anghysondeb hwn ddigwydd yn rhannol oherwydd y manylebau rhaglenni presennol. Mae iaith llwybr 1 yn cyfeirio at heriau, rhwystrau ac anghenion cymorth posibl dysgwyr yn fwy na'r cwricwlwm a'r addysgeg a allai fod yn fuddiol.

Mae diffyg aliniad â deilliannau bwriadedig CDU ac egwyddorion ehangach Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn y fanyleb rhaglen bresennol. Nid yw'n disgrifio'n ddigonol y DDdY sy'n ofynnol na sut bydd rhaglenni'n cyflawni deilliannau yn canolbwyntio ar yr unigolyn, sydd wedi'u cyfyngu gan amser. O ganlyniad, mae ffocws annigonol yn y manylebau hyn ar y medrau y dylai'r dysgwyr hyn anelu at eu datblygu yn ystod eu cyfnod yn y coleg, a'u deilliannau posibl ar ddiwedd eu cwrs.

Yn nodweddiadol, rôl y tiwtor yw addysgu dysgwyr a defnyddio ac arwain staff cymorth fel eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda dysgwyr unigol. Dylai pa mor effeithiol y maent yn gwneud y rôl hon ar y cyd fod yn ffocws sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd cyfeiriad at staff cymorth yn y manylebau.

**"Dwi wedi gwella fy holl fedrau, a'm hyder."**

**– Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

Wrth adolygu'r cynnig presennol ledled Cymru ar y llwybrau hyn, roedd yn anodd cymharu oherwydd manylebau rhaglenni eang a phroffiliau amrywiol dysgwyr ar draws gwahanol ddarparwyr. Er enghraifft, roedd ychydig o ddarparwyr yn defnyddio staff arbenigol awdurdodau lleol neu gysylltiadau â'u Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) i gefnogi ag asesu a chyflwyno rhaglenni llwybr 1, er enghraifft trwy ddefnyddio seicolegydd addysg i asesu ymddygiadau cyflwyno a medrau fel rhan o asesiadau cychwynnol.

Nid oedd hyd a dyddiad gorffen clir ar gyfer ychydig iawn o raglenni. Nid oedd hyn yn cefnogi dysgu wedi'i yrru gan ddeilliannau yn effeithiol ac mae'n peri risg gostwng gwerth y ddarpariaeth hon, gyda diffyg eglurder rhwng rhaglenni dysgu clir, gyda datblygiad medrau yn ganolog iddynt a darpariaeth gwasanaethau dydd, lle mae'r prif ffocws ar ofal a'r cyfle i gymdeithasu.

Pan roedd y ddarpariaeth yn fwyaf effeithiol, roedd gan y darparwr staff a oedd yn briodol o fedrus, a oedd yn gallu diwallu anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr yn effeithiol. Er enghraifft, roedd staff yn gallu deall a diwallu anghenion cyfathrebu dysgwyr trwy ddefnyddio dogfennau sy'n hawdd i'w darllen neu 'fotymau siarad'. Yn ychwanegol, roedd yr aelodau staff hyn yn cyflwyno cwricwlwm clir yn canolbwyntio ar yr unigolyn, a oedd yn gweddu i'r medrau y byddai eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Er enghraifft, roeddent yn canolbwyntio ar ddysgu sut i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn ddiogel, gan ddatblygu dealltwriaeth o weithgareddau hamdden y mae dysgwyr yn eu ffafrio, neu'n cwblhau ystod o weithgareddau â mwy o annibyniaeth.

Cydnabu ychydig o ddarparwyr y gallai fod angen ymagwedd wahanol at asesu cychwynnol ar ddysgwyr ar y llwybrau hyn i werthuso'r medrau sydd gan bob dysgwr yn llawn, pa fedrau sy'n dod i'r amlwg, a pha fedrau sy'n allweddol ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

### Coleg Pen-y-bont: Cynllun gwarant teithio

Bu dysgwyr ar raglenni llwybr 2 yng Ngholeg Pen-y-bont yn cymryd rhan mewn prosiect llais y dysgwr gydag elusen Leonard Cheshire. Yn ystod hwn, nodwyd bod cludiant yn rhwystro dysgwyr rhag cael mynediad i'w cymunedau ehangach. O ganlyniad i gyfarfod ag Aelodau o'r Senedd, Trafnidiaeth Cymru a chwmni First Bus, darparwyd Gwarant Teithio ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau MBA yng Ngholeg Pen-y-bont sy'n eu galluogi i ddefnyddio bysiau yn yr ardal i ddatblygu eu galluoedd i deithio'n annibynnol. O ganlyniad, gall dysgwyr prosiect gynllunio teithiau lleol, manteisio ar gyfleusterau a lleoliadau gwaith lleol a chynyddu eu hannibyniaeth.

### Llwybr 3

Yn nhymor yr hydref 2024, dywedodd bron pob un o'r sefydliadau addysg bellach sy'n cyflwyno'r cwricwlwm MBA wrthym eu bod yn cynnig llwybr 3. Roedd dros hanner y dysgwyr a oedd wedi eu cofrestru ar gyrsiau MBA yng Nghymru yn dilyn llwybr 3.

Mae manyleb y cwrs ar gyfer llwybr 3 yn cydnabod y gall y llwybr hwn gefnogi anghenion ystod eang o ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd. Mae hyn yn cynnwys y dysgwyr hynny sydd ag anableddau ac/neu anawsterau dysgu, anghenion cymdeithasol neu ymddygiadol sydd wedi tarfu ar ddysgu. Mae'r fanyleb yn dweud mai cyrchfan tebygol ar gyfer y dysgwyr hyn yw cyflogaeth (naill ai cyflogaeth a gefnogir neu gyflogaeth na chefnogir), addysg bellach neu fyw yn annibynnol.

Dywedodd colegau fod gan ddysgwyr ar y llwybr hwn ystod hynod eang o anghenion ac nad oedd y dysgwyr sy'n astudio ar y rhaglenni hyn yn aml yn nodi eu bod yn 'ddysgwr MBA'. O ganlyniad, ledled Cymru, roedd llawer o ymagweddau at gyflwyno cwricwlwm llwybr 3 o dan amrywiaeth o enwau cyrsiau.

Roedd ychydig o golegau wedi creu cyrsiau llwybr 3 yn benodol ar gyfer dysgwyr niwrowahanol a dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. Dywedodd colegau y gallai llawer o'r dysgwyr hyn fod yn ymgymryd â dysgu achrededig ochr yn ochr â dysgu heb ei achredu, neu yn ei le.

**"Roeddwn i'n nerfus wrth ddal y bws, ond mae'n dechrau mynd yn haws nawr."**

**– Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

Yn yr un modd â'r llwybrau eraill, caiff y cwricwlwm yn y maes hwn ei ddatblygu o dan bileri iechyd a lles, cymuned, medrau byw yn annibynnol a chyflogadwyedd. Roedd profiad yn gysylltiedig â gwaith yn cael ei ystyried yn elfen bwysig o'r rhaglen hon gan ddarparwyr a dysgwyr. Gallai dysgu neu gymwysterau achrededig fod yn fwy perthnasol i ddysgwyr ar y llwybr hwn nag ar gyfer y rhai ar lwybrau 1 neu 2.

#### Y Coleg Merthyr: Datblygu llythrennedd emosiynol

Ymestynnir llythrennedd emosiynol dysgwyr medrau byw yn annibynnol yn Y Coleg Merthyr trwy ddefnyddio 'parthau rheoleiddio', sy'n eu cynorthwyo i gategoreiddio teimladau ac emosiynau mewn pedwar parth lliw. Mae'r fframwaith yn cynorthwyo dysgwyr i fyfyrio ar eu cyflyrau emosiynol a gwneud addasiadau, os oes angen. Mae

adnoddau gweledol a ffisegol yn galluogi dysgwyr i nodi a defnyddio offer i’w helpu i ymdawelu neu aros yn rheoledig. O ganlyniad, caiff dysgwyr eu grymuso i ddatblygu pecynnau cymorth personoledig i ddatrys problemau, hunanreoleiddio a rheoli eu hanghenion synhwyraidd, sydd yn ei dro yn eu galluogi i ymgysylltu’n llawnach â’u dysgu.

Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, roedd deilliant clir i bob cwrs llwybr 3. Er enghraifft, nododd un coleg ddysgwyr llwybr 3 a oedd yn dymuno symud ymlaen i addysg bellach neu waith, a datblygodd y cwricwlwm o gwmpas hyn. Roedd hyn yn haws i’w gyflawni ar gyfer y colegau mwyaf neu’r rhai â darpariaeth wedi’i gwasgaru ar draws llai o gampysau. Fodd bynnag, mewn colegau eraill, roedd y dysgwyr hyn wedi eu grwpio’n amhriodol, yn cymysgu dysgwyr ar draws llwybrau ar gyfer sesiynau ar y cyd, gyda deilliannau cynlluniedig sy’n hynod gyferbyniol. Mae’n bwysig nodi nad yw hyn yn golygu na all y llwybrau gymysgu o gwbl. Er enghraifft, roedd colegau eraill yn cynllunio sesiynau ar y cyd llwyddiannus, er enghraifft dysgwyr llwybr 3 yn cynnal sesiynau campfa ar gyfer dysgwyr llwybr 2 yn rhan o’u datblygiad medrau cyflogadwyedd.

### Coleg y Cymoedd: Hyfforddwyr cyflogadwyedd

Mae Coleg y Cymoedd wedi creu hyfforddwyr cyflogadwyedd sy’n gweithio gyda dysgwyr ar gyrsiau MBA y coleg. Mae’r hyfforddwyr hyn yn gweithio gyda dysgwyr yn unigol ac mewn grwpiau bach ar draws campysau’r coleg i wella medrau cyflogadwyedd trwy gyfleoedd profiad gwaith yn y coleg. Er enghraifft, mae clwb brecwast yn Nantgarw yn gwneud diodydd poeth a thost i ddysgwyr a staff, ac mae dysgwyr hefyd yn gallu gweithio mewn gweithdy cynnal a chadw beiciau neu yng ngardd y coleg. Yn Ystrad Mynach, mae dysgwyr yn golchi, yn smwddio ac yn pecynnu dillad wedi’u rhoi ar gyfer eu ‘Cwpwrdd Cerdded i Mewn’ sydd ar gael i holl ddysgwyr y coleg allu cael dillad, esgidiau ac ategolion yn rhad ac am ddim. Yn y Rhondda, mae dysgwyr yn rhedeg caffi sy’n gweini bwyd a diodydd.

Roedd ychydig o golegau’n defnyddio llwybr 3 fel cwrs ‘mynediad at addysg bellach’ i alluogi dysgwyr i gael rhagflasau o wahanol gyrsiau sydd ar gael yn y coleg. Yn y colegau hyn, aeth llawer o ddysgwyr ymlaen o un cwrs llwybr 3 i un arall. I rai dysgwyr, mae hyn yn briodol ac yn dangos cynnydd cadarnhaol. Fodd bynnag, i ddysgwyr eraill, mae hyn yn golygu bod perygl y byddant yn cwblhau cyrsiau heb gyrchfan clir wedi’i gynllunio ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Mae enghreifftiau o’r cyrsiau sydd ar gael ar lwybr 3 yn cynnwys:

- Llwybrau at gerddoriaeth; celf a dylunio; cymuned ac annibyniaeth; iechyd a lles; y celfyddydau perfformiadol; cyflogaeth a gwirfoddoli; arlwyo; gwallt a harddwch; garddwriaeth
- Astudiaethau galwedigaethol mwy cyffredinol, yn cynnwys cyfleoedd i samplu cyrsiau ar draws ystod o alwedigaethau
- Profiadau gwaith yn y coleg
- Tystysgrif Estynedig mewn medrau gwaith neu archwilio gwaith
- Meithrin gwydnwch
- Astudiaethau sylfaen
- Medrau bywyd

O ganlyniad i ehangder yr anghenion y gall llwybr 3 eu diwallu, roedd lleiafrif o golegau'n cynnig llwybr 3 i ddysgwyr Mynediad 3 a Lefel 1. Dim ond lleiafrif o'r dysgwyr hyn oedd â CDUau. I ychydig o ddysgwyr, roedd hyn yn briodol, ond i ddysgwyr eraill, roedd yn peryglu defnyddio darpariaeth MBA i ddiwallu anghenion dysgwyr nad ydynt yn cael eu disgrifio yn y fanyleb rhaglen ac y gallai fod angen gwaith mwy heriol arnynt, er enghraifft ar lefel 1. Ni ddylid defnyddio cyrsiau MBA yn lle diwallu anghenion dysgwyr â lefelau medrau isel ar gyrsiau prif ffrwd.

Roedd ychydig o golegau yn cynnwys dysgwyr llwybr 3 heb CDU yn eu casgliad data ar gyfer ADY. O ganlyniad, gellir gogwyddo data cadw a chyrhaeddiad yn ogystal â nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â dysgu achred edig trwy gynnwys dysgwyr nad oes ganddynt CDUau, ac felly nid oes ganddynt ADY (neu nid ydynt wedi cael eu hasesu neu mae ganddynt ADY ond wedi gwrthod CDU).

### Coleg Cambria: Medrau gwaith llwybr 3

Mae dysgwyr llwybr 3 yn cymryd rhan mewn diwrnodau 'medrau gwaith' wythnosol sy'n darparu profiadau i lywio'u dyheadau ar ôl cyrsiau. Maent yn dewis o blith meysydd galwedigaethol ar draws y coleg, gan gynnwys gofal anifeiliaid, arlwyo, glanhau ceir, yn ogystal â gwirfoddoli gyda chwmni theatr lleol, cartref gofal preswyl a salon gwallt a harddwch.

Mae dysgwyr yn cael profiad uniongyrchol trwy sesiynau rhagflas ar gyrsiau galwedigaethol, siaradwyr gwadd, a lleoliadau byd go iawn gyda sefydliadau a busnesau lleol. Mae'r dull hwn yn datblygu medrau ymarferol a phroffesiynol ac yn cysylltu dysgu gyda bywyd go iawn, gan hybu cyflogadwyedd a helpu dysgwyr i ffurfio'u camau nesaf.

### Llwybr 4

Mae interniaethau a gefnogir yn rhaglen astudio un flwyddyn sydd wedi'i seilio ar sicrhau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc ag ADY. Yn ôl data a ddarparwyd gan golegau, yn y flwyddyn academaidd 2024-2025, roedd 8.2% o ddysgwyr MBA wedi eu cofrestru ar lwybr 4.

Caiff interniaid eu cofrestru a'u cefnogi gan ddarparwr dysgu, ond yn nodweddiadol, maent yn treulio 70 – 100% o'u hamser mewn gweithle lle gallent hefyd dderbyn cymorth tiwtorial i ddatblygu eu medrau hanfodol a'u dealltwriaeth o'r byd gwaith. Bwriad interniaethau a gefnogir yw bod triawd sy'n cynnwys sefydliad addysg bellach, hyfforddwr swyddi a chyflogwr yn gweithio gyda'i gilydd i hwyluso llwybrau i waith cynaledig â thâl.

Mae'r model 'Chwilio Prosiectau' gwreiddiol yn defnyddio sefydliadau mawr y sector cyhoeddus fel ysbytai ac awdurdodau lleol fel cyflogwyr. Wedyn, yn nodweddiadol, cynigir hyd at dri 'cylchdro' i interniaid lle gallant brofi gwahanol rolau mewn gwahanol adrannau, er enghraifft arlwyo, gweinyddu ac ystadau. Mae hyfforddwyr swyddi yn gweithio gyda chyflogwyr i gytuno ar dasgau a datblygu cymwyseddau mewn rolau penodol.

Hyd yma, mae colegau sy'n cyflwyno llwybr 4 wedi gweithio'n bennaf gydag asiantaethau cyflogaeth a gefnogir Elite (De Cymru) ac Agoriad (Gogledd Cymru). Fodd bynnag, roedd colegau yn ceisio recriwtio a hyfforddi eu staff eu hunain yn annibynnol yn gynyddol i gynorthwyo dysgwyr mewn gweithleoedd yn seiliedig ar gytundebau lleol gyda chyflogwyr lleol.

Cyflwynwyd interniaethau a gefnogir yn wreiddiol yn 2016 yng Nghymru trwy brosiect Engage to Change, sef prosiect cydweithio am saith mlynedd a ariennir trwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Cafodd ei arwain gan Anabledd Dysgu Cymru, ac yn dod ag asiantaethau cyflogaeth a gefnogir Elite ac Agoriad at ei gilydd i gyflwyno hyfforddiant swydd, lleoliadau am dâl a di-dâl, a swyddi am dâl mewn gweithleoedd. Yn ôl data'r fenter, yn ystod ei oes, cyflwynodd y prosiect 244 o interniaethau a gefnogir, a chyflawni cyfradd gyflogaeth gyffredinol o 41%[4]. Dywedodd dysgwyr a staff y gall y lleoliadau hyn newid bywyd dysgwyr, gan eu cynorthwyo i gael gyflogaeth lwyddiannus pan nad oeddent yn meddwl y byddai hyn yn bosibl.

> **"Doeddwn i byth yn meddwl y bydden i'n cael swydd! Dydw i ddim yn gallu credu 'mod i'n gweithio nawr!"**

[4] Cyflogi pobl ag anableddau dysgu

**– Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

Ar hyn o bryd, mae interniaethau a gefnogir yng Nghymru ar gael trwy lwybr 4 y manylebau rhaglenni MBA presennol yn unig. Mae llwybr 4 y fanyleb rhaglen yn datgan:

*Bydd dysgwyr yn nodweddiadol rhwng 16 a 25 oed ac yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd. Bydd angen cymorth sylweddol ar bob un ohonynt i'w galluogi i gael cyflogaeth am dâl yn llwyddiannus. Gellid asesu angen trwy ddiagnosis o anabledd ac/neu anhawster dysgu ac/neu awtistiaeth neu gynllun asesu anghenion. Bydd angen i ddysgwyr hefyd gael agwedd fwy aeddfed, bod yn barod i ddysgu a datblygu eu medrau ac ymroi i ddod o hyd i gyflogaeth. Bydd llawer o'r dysgwyr wedi symud ymlaen o Lwybr 2 neu 3 a'r Llwybr hwn fydd y 'flwyddyn olaf' ar gyfer dysgwyr sydd â'r potensial i symud ymlaen i gyflogaeth am dâl. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddysgwyr o raglen brif ffrwd ddilyn Llwybr 4 oni bai bod angen wedi'i nodi.*

*Datblygwyd y rhaglen interniaeth a gefnogir i gynorthwyo dysgwyr i gael swydd gynaliadwy am dâl trwy gyfuno dysgu yn y gweithle gyda rhaglen astudio bersonoledig sy'n cynnwys elfennau o'r pedwar piler dysgu. Ffocws y rhaglen yw arfogi dysgwyr â'r medrau a'r cymwysterau perthnasol y bydd eu hangen arnynt ar gyfer cyflogaeth yn eu maes dewisol.*

*Mae medrau cyfathrebu, rhifedd a llythrennedd digidol yn parhau i fod yn rhan allweddol o ddysgu, gyda chyfleoedd i ddatblygu ac ymarfer y medrau hyn yn y gweithle ac wedi'u hymgorffori o fewn pob un o'r pedwar piler.*

Dangosodd tystiolaeth o drafodaethau â cholegau fod y ffyrdd y mae sefydliadau addysg bellach yn gweithio gyda chyflogwyr ac asiantaethau cyflogaeth a gefnogir ledled Cymru yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft, mae Elite wedi gweithio'n agos gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i feithrin gwybodaeth staff y coleg am eu model interniaeth a gefnogir, a'u profiad ohono, tra roedd darparwyr eraill yn cael cyswllt mwy cyfyngedig ag asiantaethau cyflogaeth a gefnogir.

Pwysleisiodd y ddwy asiantaeth gyflogaeth eu bod wedi ymrwymo i gydweithio. Fodd bynnag, pwysleisiodd y naill a'r llall ohonynt hefyd fod y symud at y rhaglenni a 'berchnogir' gan sefydliadau addysg bellach wedi cael effaith andwyol ar eu gallu i gyflawni deilliannau cyflogaeth ac i'w sefydliadau fod yn ariannol gynaliadwy. Mae'r rhesymau a roesant am hyn yn cynnwys:

- Nid yw colegau'n ystyried yn gyson fod cyflogaeth am dâl yn ddeilliant disgwyliedig llwybr 4. Mae hyn yn tynnu'n groes i'r asiantaethau cyflogaeth a'u cyllidwyr y mae cyflogaeth gynaledig ar ôl rhaglen yn fesur allweddol o lwyddiant iddynt.

- Mae'r disgwyliad fod colegau'n symud dysgwyr ymlaen o lwybr 3 i lwybr 4 fel eu blwyddyn olaf o goleg yn golygu nad dysgwyr ar lwybr 4 yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer interniaethau a gefnogir bob amser. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd angen cymorth un i un arnynt. Yn aml, nid yw dysgwyr yn barod ar gyfer gofynion interniaeth a gefnogir, fel gallu teithio'n annibynnol neu sifftiau gwaith.
- Mae amgyffredion asiantaethau cyflogaeth nad yw colegau bob amser yn cydnabod bod interniaethau a gefnogir llwyddiannus yn dibynnu ar bartneriaeth deirffordd neu fod hyfforddiant swydd, yn ymwneud â mwy na chymorth un i un, er enghraifft ei fod yn cynnwys proffilio galwedigaethol; cymorth â budd-daliadau (yn cynnwys Mynediad at Waith); cael trosolwg o'r mathau o swyddi sydd ar gael; gweddu dysgwyr i wahanol rolau mewn gwahanol weithleoedd; a bod yn fedrus o ran dadansoddi tasgau a chyfarwyddyd systematig.
- Mae asiantaethau cyflogaeth yn gofyn am gyfnod pontio cyn-mynediad i nodi cyflogwyr posibl a sicrhau bod unrhyw hyfforddiant rhagofynnol neu wiriadau gan Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gallu cael eu cwblhau cyn i ddysgwr ddechrau ei interniaeth, ac nid yw'r cyfnod amser hwn yn cael ei gydnabod yn gyson gan golegau. O ganlyniad, gall hyn achosi oedi wrth i interniaid ddechrau mewn gweithleoedd.
- Ni chaiff interniaid eu cynorthwyo'n gyson i fabwysiadu ymddygiad a disgwyliadau yn gysylltiedig â gwaith. Er enghraifft, efallai na fyddant yn mynychu gweithleoedd yn ystod gwyliau coleg na pan fydd y coleg yn cynnal diwrnod HMS.
- Nid yw staff cymorth dysgu colegau bob amser wedi eu hyfforddi'n briodol i gynorthwyo interniaid i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd.
- Yn aml, gall presenoldeb fod yn wael heb unrhyw ganlyniad. Mae presenoldeb isel yn arwain at lai o ymgysylltu. Mae hyn yn tanseilio effeithiolrwydd y rhaglen ar gyfer dysgwyr a pherthnasoedd â chyflogwyr.
- Mae'r gofyniad i gwmpasu'r pedwar piler yn amharu ar ffocws galwedigaethol yr interniaeth â chymorth.
- Disgwylir i interniaid dalu costau teithio o lwfansau cyfyngedig, sy'n aml yn anfforddiadwy ac yn cael effaith andwyol ar bresenoldeb.
- Maent yn teimlo bod cyflogaeth dysgwyr ar ôl cyrsiau yn cael ei chyfyngu'n rhy aml i chwe mis heb hyfforddwyr swyddi asiantaethau cyflogaeth.
- Nid yw'r model cyllido presennol yn ariannol gynaliadwy ar gyfer asiantaethau cyflogaeth sy'n cael taliadau ôl-weithredol gan golegau a'r Adran Gwaith a

Phensiynau, fel ei gilydd.

Ar yr un pryd, profodd colegau heriau ag interniaethau a gefnogir, gan ddweud wrthym am y materion canlynol:

- Nid oes hyfforddwyr swyddi ar gael bob amser gan asiantaethau cyflogaeth a gefnogir.
- Nid yw'r model yn briodol ar gyfer colegau a dysgwyr yng nghefn gwlad Cymru gan fod llai o gyflogwyr mawr wedi eu lleoli yn yr ardaloedd hyn.
- Mae rhwystredigaeth nad yw colegau'n rheolwyr llinell ar hyfforddwyr swyddi, sy'n cyflwyno'u rhaglen.
- Mae costau cynyddol i'r coleg yn sgil ffioedd asiantaethau cyflogaeth.
- Mae asiantaethau cyflogaeth a chyflogwyr yn rhy ragnodol o ran nifer y diwrnodau a'r oriau y mae'n ofynnol i ddysgwyr fynychu.
- Gall dulliau cyflwyno hyfforddiant gorfodol (er enghraifft, modiwlau e-ddysgu) fod yn rhwystr sy'n atal rhai dysgwyr rhag gallu ymgymryd ag interniaeth a gefnogir.
- Mae pryder na fyddent yn gallu dod o hyd i gyllid Mynediad at Waith heb wybodaeth ac arbenigedd asiantaethau cyflogaeth a gefnogir.
- Byddai rhai dysgwyr yn elwa ar interniaeth mewn microfusnes lleol (er enghraifft siop bentref neu gaffi) yn hytrach na theithio i sefydliad mawr, ond eu bod yn teimlo y byddai'r model presennol yn gwneud hyn yn heriol.

Roedd newidiadau a heriau eraill a ddaeth i'r amlwg o'n cyfarfodydd gyda darparwyr, cyflogwyr ac asiantaethau cyflogaeth yn cynnwys:

- Adeg yr adolygiad, roedd pob un o'r dysgwyr ar lwybr 4 yn dilyn darpariaeth MBA, ac felly roedd disgwyl bod ganddynt ADY a Chynllun Datblygu Unigol (CDU). Fodd bynnag, roedd colegau ac asiantaethau cyflogaeth a gefnogir yn nodi'n gynyddol garfan ehangach o ddysgwyr sy'n debygol o elwa ar interniaeth a gefnogir. Roedd hyn yn cynnwys cynyddu nifer y dysgwyr lefel 1 nad ydynt efallai wedi cael asesiad ffurfiol o ADY, ond sydd efallai'n niwrowahanol neu mae ganddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl sy'n atal eu hymgysylltiad ar gwrs addysg bellach amser llawn. Roedd hefyd yn cynnwys nifer gynyddol y dysgwyr addysg bellach yr oedd eu profiadau addysgol blaenorol yn digwydd heblaw yn yr ysgol (AHY), er enghraifft dysgwyr yn derbyn addysg yn y cartref neu ddysgwyr sydd wedi bod mewn unedau cyfeirio disgyblion (UCDau).

- Roedd Anabledd Dysgu Cymru wedi nodi y dylid pennu mai'r meini prawf oedran cymwys ar gyfer rhaglenni cyflogadwyedd a medrau yw dysgwyr rhwng 16 a 30 oed, ac y dylai cymorth hyfforddwr swyddi fod ar gael i unrhyw un o oedran gweithio. Adeg yr adolygiad hwn, roedd colegau'n teimlo bod dysgwyr ddim ond yn gallu cael mynediad at interniaethau a gefnogir hyd nes eu bod yn 25 oed gan fod y manylebau presennol yn dweud mai dyma beth sy'n digwydd 'yn nodweddiadol'. Gallai hyn fod yn her, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny nad ydynt efallai'n ymuno â'r coleg hyd nes eu bod yn 19 oed, neu y terfir ar eu haddysg.

- Nid yw'n anarferol i rieni dysgwyr orffen interniaeth a gefnogir oherwydd eu bod yn ofni y byddai'r ffaith fod eu plentyn yn gallu teithio i weithle ac oddi yno yn annibynnol ac ennill incwm yn cael effaith andwyol ar fudd-daliadau i'r aelwyd.

- Mae tua hanner y colegau wedi datblygu rhaglen astudio llwybr 3 y gellir ei disgrifio fel paratoad ar gyfer rhaglen interniaeth a gefnogir. Dywedon nhw fod hyn yn fuddiol o ran paratoi dysgwyr yn well ar gyfer llwybr 4.

### Sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant

Mae datblygiad medrau unigol a chyfraddau cyflogaeth ar ôl y coleg ill dau yn fesurau ansawdd pwysig llwybr 4. Fodd bynnag, roedd sefydliadau addysg bellach, asiantaethau cyflogaeth a chyllidwyr yn nodi llwyddiant mewn gwahanol ffyrdd, ac roedd hyn yn effeithio ar brosesau gwerthuso a gwella ansawdd rhanddeiliaid. Er enghraifft, dim ond un coleg a ddywedodd wrthym fod llawer o'u dysgwyr llwybr 4 wedi mynd ymlaen i sicrhau cyflogaeth, tra dywedodd cynrychiolydd un asiantaeth gyflogaeth, *'mae llwybr 4 yn ofnadwy o aneffeithlon o ran sicrhau cyflogaeth'.* Fodd bynnag, roedd colegau'n gallu dangos sut mae dysgwyr a oedd wedi bod ar lwybr 4 wedi cynyddu medrau cyflogadwyedd a medrau ehangach fel hyder cynyddol, gwydnwch, medrau rheoli amser a chyfrifoldeb cynyddol.

Nid oes cyfarwyddyd clir i ddarparwyr ar integreiddio deilliannau bwriadedig CDU dysgwr ym manyleb rhaglen llwybr 4. Dywed asiantaethau cyflogaeth nad oes ganddynt lawer o ddealltwriaeth o CDUau dysgwyr, os o gwbl.

Caiff arfer orau ar gyfer hyfforddwyr swyddi ei chydnabod gan Y Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth gyda Chefnogaeth (BASE), trwy Dystysgrif ar gyfer Ymarferwyr Cyflogaeth gyda Chefnogaeth lefel tri, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a Fframwaith Ansawdd. Fodd bynnag, dim ond dau goleg a ddywedodd wrthym ei bod yn ofynnol i staff sy'n cynorthwyo dysgwyr ar interniaethau a gefnogir fod wedi cyflawni'r dystysgrif. Dywedodd asiantaethau cyflogaeth eu bod yn rhwystredig oherwydd y diffyg nodau ac arfer ar y cyd mewn gweithleoedd rhwng hyfforddwyr swyddi a staff cymorth

colegau.

Roedd y graddau y glynir at y gofyniad i gynnwys pedwar piler MBA mewn rhaglenni llwybr 4 yn gymysg ac yn achos rhwystredigaeth i asiantaethau cyflogaeth a awgrymodd y dylai cynnwys y cwricwlwm ganolbwyntio mwy ar gyflogaeth.

### Coleg Caerdydd a'r Fro: Llwybr 4


Yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, mae mwyafrif o ddysgwyr sy'n cwblhau interniaethau a gefnogir yn sicrhau cyflogaeth ar ddiwedd eu rhaglen. Trwy weithio gyda chyflogwyr allweddol, gan gynnwys Gwesty'r Parkgate a Dow Silicones UK, codir dyheadau dysgwyr. Mae dysgwyr yn cwblhau cymwysterau achrededig priodol fel gweithio wagen fforch godi, hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch i gefnogi llwybrau i gyflogaeth. Mae hyfforddwyr swyddi yn cwblhau cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ac yn dilyn fframwaith sicrhau ansawdd.

## Manylebau rhaglenni MBA presennol

Mae'r manylebau rhaglenni a ddatblygwyd i ymateb i Adolygiad Thematig Estyn yn 2017 wedi helpu symud sefydliadau addysg bellach oddi wrth gyflwyno unedau a gwobrau achrededig, nad oeddent bob amser yn berthnasol i ddymuniadau ac anghenion dysgwyr, i lwybrau dysgu heb eu hachredu y gellir eu teilwra i ddiwallu anghenion dysgwyr penodol.


Yn ein harolwg, dywedodd 75.3% o staff fod y llwybrau'n diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr, ond yn anad dim, roedd tua hanner o'r rhai a oedd yn teimlo'n gadarnhaol am lwybrau presennol yn teimlo bod hyn oherwydd dull hyblyg yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, nododd 81.8% o staff hefyd fod proffil y dysgwr MBA nodweddiadol wedi newid, a bod ADY yn gyffredinol wedi ehangu i gynnwys dysgwyr ag ymddygiad mwy heriol, gan gynnwys lefelau is o ymgysylltu, medrau cymdeithasol, hyder a gwydnwch.

**Ffigur 4. Ymatebion i "Ydych chi'n meddwl bod y llwybrau presennol yn diwallu anghenion pob un o'r dysgwyr MBA?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 77 o staff*

**Ffigur 5. Ymatebion i "A yw proffil y dysgwr MBA nodweddiadol wedi newid ers y pandemig?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 77 o staff*

Mae tystiolaeth o arolygiadau diweddar o golegau, yn ogystal ag ymweliadau â cholegau fel rhan o'r adolygiad thematig hwn, yn awgrymu bod newid ystyrlon i'r cwricwlwm wedi cael ei gyflawni i raddau amrywiol o lwyddiant ar draws sefydliadau addysg bellach. Hefyd, adroddodd colegau eu bod wedi cael cyfran gynyddol o ddysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl sy'n elwa ar gynigion dysgu heb eu hachredu.

Cynhaliwyd yr adolygiad thematig hwn wrth i agweddau ôl-16 ar ddiwygio ADY gael eu rhoi ar waith, a dechreuodd sefydliadau addysg bellach gyflawni eu cyfrifoldebau

statudol newydd. Darparodd hyn gyfle i werthuso effeithiolrwydd y manylebau rhaglenni a'r llwybrau dysgu o ran newidiadau ehangach i'r system a newidiadau diwylliannol.

**Yn gyffredinol, yn ystod ein hadolygiad, canfuom y canlynol am y manylebau rhaglenni:**

- **nid ydynt yn cynnwys ffocws eglur ar ddiben a deilliannau.** Mae hyn yn cynnwys ystyried p'un a yw'r teitl a'r termau MBA yn parhau'n briodol.
- **nid ydynt yn cydnabod nac yn ystyried yn gyson sut mae darpariaeth ar gyfer y grŵp hwn yn wahanol** i addysg bellach brif ffrwd. Mae hyn yn cynnwys cofnodi cynnydd mewn dysgu heb ei achredu, rôl estynedig staff cymorth dysgu a rhanddeiliaid ehangach mewn sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddysgwyr.
- **nid ydynt yn ystyried cyfrifoldebau statudol, mentrau a chyd-destunau ehangach colegau**, fel prosesau'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU), Sgiliau'r DU (UK Skills), dangosyddion lles a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Categorïau llwybrau

Mae'r naratif yn y manylebau rhaglenni yn gor-bwysleisio natur anawsterau ac anableddau dysgu dysgwyr ar draul disgrifio anghenion dysgu a sut bydd rhaglenni dysgu personoledig wedi'u cyfyngu gan amser, wedi'u gyrru gan dargedau ac wedi'u harwain gan gyrchfannau, yn cefnogi deilliannau cadarnhaol i unigolion eu paratoi ar gyfer eu bywydau ar ôl y coleg pan fyddant yn oedolion.

Nid yw categoreiddio grwpiau o ddysgwyr mewn gwahanol lwybrau gan ddisgrifiad lefel uchel o anawsterau ac anableddau dysgu yn fuddiol oherwydd y canlynol:

- Nid yw defnyddio categorïau nad ydynt yn ddiagnosisau yn gwneud fawr ddim i helpu staff i asesu anghenion dysgu unigolion. Yn ychwanegol, ni fydd dysgwyr yn yr un categori yn wynebu'r un rhwystrau rhag dysgu.
- Yn nodweddiadol, bydd gan ddysgwyr ag anawsterau ac anableddau dysgu 'broffiliau pigfain' sy'n golygu efallai bod gan ddysgwyr lefelau medrau uchel mewn un maes, a lefelau medrau llawer is mewn meysydd eraill. Er enghraifft, gallai dysgwr y disgrifiwyd ei fod yn 'gweithredu ar lefel uchel' elwa ar agweddau ar gwricwlwm synhwyraidd a ddarperir yn nodweddiadol ar gyfer dysgwyr sydd â'r anableddau dysgu mwyaf cymhleth.
- Rydym yn gwybod bod gwahanol golegau yn bodloni gwahanol lefelau o gymhlethdod ADY ac y byddai dysgwr llwybr 1 mewn un coleg yn cael ei osod ar lwybr 2 mewn coleg arall.

## Enwau rhaglenni

Nid yw'r term 'medrau byw yn annibynnol' bob amser yn disgrifio darpariaeth yn ddigonol oherwydd:

- Nid yw'n adlewyrchu cyflawniadau dysgwyr sy'n cwblhau'r rhaglenni. Rydym yn gwybod bod rhai o'r colegau yn defnyddio'u teitlau cyrsiau eu hunain ac yn cynnal eu seremonïau gwobrau eu hunain.
- Mae ynddo ddiffyg dyhead ac uchelgais ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr ac yn gwaethygu'r syniad amdanyn nhw fel 'dysgwyr eraill'. Yn anecdotaidd, dywedodd colegau wrthym am ddysgwyr MBA 'nad ydynt yn nodi eu hunain yn ddysgwyr MBA'.
- MBA yw teitl y maes rhaglen ac un o'r pedwar piler dysgu, sy'n gallu bod yn ddryslyd.

Dylid adolygu'r defnydd o'r term 'MBA' i sicrhau nad yw'n amharu ar ethos dyheadol, yn seiliedig ar hawliau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg. Dylai confensiynau enwi ei gwneud yn glir fod dysgwyr yn manteisio ar hawl statudol, nid darpariaeth ar wahân nac ymylol.

Ar hyn o bryd, nid yw pob coleg yn defnyddio'r un MBA i ddisgrifio cyrsiau yn y maes hwn. Mae hyn yn gadarnhaol lle mae'n dangos yn gliriach i ddysgwyr y manteision a'r deilliannau dymunol ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu bod perygl na fydd dysgwyr a rhieni'n gallu ei adnabod cystal pan fyddant yn chwilio am gyrsiau coleg priodol.

## Pedwar piler

Mae'r esboniad am y pedwar piler yn ddryslyd oherwydd:

- Mae'r pileri'n cael eu disgrifio fel 'pileri dysgu', 'pileri MBA' a 'phileri dysgu', a gellir dehongli pob un ohonynt yn wahanol. Yn ychwanegol, yr enw a roddir ar un o'r pileri MBA yw 'MBA'.
- I ddechrau, mae llwybr 1 yn dweud bod ganddo tri philer, ac wedyn pedwar piler.
- Yn hytrach na phileri dysgu (y tybir eu bod yn gysyniadau sylfaenol i gefnogi'r broses ddysgu), ystyrir eu bod yn feysydd y cwricwlwm (sef iechyd a lles, cynhwysiant cymunedol, medrau byw yn annibynnol a chyflogadwyedd). Mae UNESCO, er enghraifft, yn defnyddio'r pedwar piler dysgu: gwybod, dysgu gwneud, dysgu bod, dysgu byw gyda'n gilydd.

- Mae’r manylebau hefyd yn dweud, 'mae medrau llythrennedd, rhifedd, cyfathrebu a llythrennedd digidol yn nodwedd ddysgu allweddol o dan bob llwybr'. At ei gilydd, mae 'nodweddion dysgu allweddol', 'pileri dysgu’, ‘pileri MBA' a 'phileri dysgu' yn anodd eu deall.

- Mae perygl y bydd darparwyr gwannach yn creu cynigion ac amserlenni cwricwlwm o gwmpas y 4 piler ar draul cwricwlwm yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

> **“Mae’r cwrs yn wych ar gyfer y rheiny sy’n ddihyder.”**
>
> **– Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025.**

### Hyd rhaglenni

Mae gan y disgrifwyr llwybrau 650 o oriau cyswllt dan arweiniad, sef rhaglen amser llawn am flwyddyn (yn seiliedig ar 18 awr yr wythnos am 36 wythnos). Nid oes arweiniad penodol ar hyd cyrsiau a gall dysgwyr ailadrodd cyrsiau neu symud ymlaen i gwrs arall ar ôl blwyddyn. Mae rhai colegau’n cyflwyno’r rhaglenni ar sail rhan-amser. Nid oes hyd na dyddiad gorffen penodol mewn ychydig o gyrsiau, sy’n peryglu tanseilio diben addysg yn y maes hwn ac yn drysu hyn â darpariaeth ddydd.

### Cyrchfannau dysgwyr

O fewn y manylebau rhaglenni MBA presennol, nid yw ffocws ar y deilliannau personoledig y dylai dysgwyr eu cyflawni ac ym mha gyfnod amser wedi’i ddatblygu’n ddigonol. Gallai fod yn fwy buddiol i’r cyrchfan gael ei ystyried hefyd fel set o fedrau y dylai dysgwyr fod wedi’u meistroli ar ddiwedd y rhaglen wedi iddynt gyflawni eu deilliannau personol. Er enghraifft, mae cyflogaeth, addysg bellach neu fyw â chymorth yn gategorïau bras iawn. Efallai na fydd dysgwr llwybr 1 sy’n symud ymlaen i fyw â chymorth yn adlewyrchu cynnydd da. Fodd bynnag, mae dysgwyr sy’n symud ymlaen i fyw â chymorth gyda medrau annibyniaeth uwch a medrau bywyd mwy datblygedig yn adlewyrchu cynnydd da.

Mae deall dyheadau a nodau dysgwyr ar ôl y coleg yn hanfodol. Fodd bynnag, mae perygl nad yw cyrchfannau ‘lleoliad’ penodol (fel cyflogwr penodol, darparwr byw â chymorth neu goleg arbenigol annibynnol) bob amser yn fuddiol wrth gynllunio rhaglenni dysgu sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, wedi’u gyrru gan dargedau. Mae hyn oherwydd bod darparwyr yn dweud bod cyrchfannau ar ôl y coleg yn aml yn gallu teimlo’u bod allan o reolaeth y dysgwyr neu’r colegau. Hefyd, gallai ystod y cyrchfannau posibl amrywio yn dibynnu ar lwybr y dysgwr neu sefyllfa bywyd unigolyn. Er enghraifft,

mae dysgwyr ar lwybr 1 a 2 yn llawer mwy tebygol o symud ymlaen i fyw â chymorth na’r dysgwyr hynny ar lwybr 3 a 4.

### Cydnabod gwahaniaeth

Mae natur y dysgwyr a’u hanghenion yn golygu bod yr addysgeg a ddefnyddir yn debygol o fod gryn dipyn yn wahanol i grwpiau dysgwyr eraill, gan gynnwys yr addysgeg ar gyfer dysgwyr ag ADY ar gyrsiau prif ffrwd.

Nid yw manylebau rhaglenni presennol yn rhoi arweiniad na disgwyliadau i ddarparwyr ar sut y dylent gynllunio ar gyfer y cyrsiau hyn. Er enghraifft, nid yw’r manylebau’n disgrifio’r disgwyliad i gynllunio ystyried, er enghraifft, beth ddylai fod yn digwydd yn yr amgylchedd dysgu, sut beth yw cynnydd, sut dylai staff cymorth helpu dysgu, beth mae dyhead yn ei olygu, neu sut caiff adborth ei roi.

Gallai dulliau cynllunio amrywio yn ôl llwybr hefyd, gan fod deilliannau bwriadedig a gweithgareddau priodol ar lwybr 1 yn wahanol i’r rhai ar lwybr 3 neu 4.

#### Coleg Gŵyr Abertawe: Deallusrwydd Artiffisial

Mae Coleg Gŵyr wedi nodi dau hyrwyddwr digidol o fewn ei adran MBA sy’n cynorthwyo dysgwyr i fod yn ddiogel ar-lein a gwella’u medrau digidol. Mae’r Coleg yn defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) i gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio ‘olrheiniwr targedau’ i osod nodau dysgu a chynllunio gweithgareddau ac asesiadau cwricwlwm personoledig sy’n cyd-fynd â chyflawniadau blaenorol a diddordebau dysgwyr. Defnyddir deallusrwydd artiffisial i bersonoli adborth mewn ffyrdd sy’n ystyrlon ac yn fuddiol i ddysgwyr er mwyn iddynt allu cynllunio’u camau nesaf.

### Bodloni cyd-destun ehangach

Nid oes aliniad rhwng y llwybrau a rhwymedigaethau statudol sefydliadau addysg bellach, er enghraifft i adolygu a chynnal CDUau, gan gynnwys y ddyletswydd statudol i gyflwyno ac adolygu CDUau, fel sy’n ofynnol o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg. Dylid fframio’r cwricwlwm o gwmpas y DDdY ofynnol i ddiwallu angen canfyddedig pob dysgwr. Er na ellir dibynnu’n gyson ar y ‘deilliannau bwriadedig’ mewn CDUau i ganolbwyntio ar yr unigolyn, bod yn briodol i oedran, yn uchelgeisiol, cyd-fynd â dyheadau’r dysgwr a chael eu harwain gan gyrchfannau, dylent fod yn bwynt cyfeirio buddiol ar gyfer llywio cwricwlwm MBA pob dysgwr.

Fel rhan o’r adolygiad thematig hwn, mae colegau wedi adrodd am gynnydd mewn dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl. O ganlyniad, maent

yn teimlo nad yw'r llwybrau presennol yn darparu ar gyfer y grŵp datblygol hwn o ddysgwyr MBA nad ydynt yn barod i gael mynediad at ddarpariaeth addysg bellach brif ffrwd. Er enghraifft, mae un coleg wedi datblygu cwrs newydd y tu allan i'r llwybrau MBA traddodiadol, Cam Ymlaen, fel cwrs pontio i gynorthwyo dysgwyr sydd wedi ymddieithrio neu'n orbryderus i ailintegreiddio i addysg. Yn wahanol i raglenni tebyg, fel Twf Swyddi Cymru+, nid yw wedi'i gyfyngu gan oedran.

## Arwain maes cwricwlwm MBA

### Asesiadau cychwynnol, gosod targedau a chofnodi cynnydd

#### Asesiadau gwaelodlin a gosod targedau

Roedd bron pob sefydliad addysg bellach yn defnyddio RARPA fel ffordd o gwblhau asesiad gwaelodlin o'r medrau sydd gan ddysgwyr pan fyddant yn ymuno â chwrs MBA. Pan fo'n briodol, roedd colegau'n ychwanegu at hyn gydag asesiadau llythrennedd a rhifedd mwy ffurfiol.

Roedd ychydig o golegau wedi datblygu ymagweddau mwy teilwredig at asesu medrau dysgwyr, gyda gwahanol fframweithiau medrau ar gyfer pob llwybr yn gysylltiedig â deilliannau disgwyliedig. Roedd colegau eraill yn defnyddio gweithio amlasiantaethol i gasglu ystod eang o wybodaeth am ddysgwyr, gan gynnwys meysydd fel lles a chyfathrebu. Yn ein harolwg, dywedodd y rhan fwyaf o staff eu bod yn hyderus fod dysgwyr yn gwneud cynnydd mewn meysydd a oedd yn bwysig iddynt, a dywedodd llawer o ddysgwyr eu bod yn dysgu medrau newydd ac yn hapus â'r cynnydd maent yn ei wneud. Fodd bynnag, roedd yr asesiadau a ddefnyddir yn aml yn rhy gul ac nid oeddent yn ystyried ystod lawn y medrau fydd eu hangen ar ddysgwyr ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.


Nod y rhan fwyaf o golegau oedd cysylltu targedau dysgwyr â deilliannau CDU. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn gyson o fewn colegau, nac ar eu traws. Hefyd, dywedodd ychydig o golegau y gall hyn fod yn her oherwydd ansawdd amrywiol CDUau olynol. Mae gan sefydliadau addysg bellach gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod CDUau yn gyfoes a pherthnasol. Fodd bynnag, oherwydd y baich gwaith mawr yn y maes hwn yn nhymor yr hydref, roedd darparwyr yn teimlo bod dysgwyr yn gweithio tuag at ddeilliannau CDU di-fudd neu amherthnasol hyd nes y gellid diwygio'r rhain yn ystod eu hadolygiad blynyddol cyntaf yn y coleg.

Yn ein harolwg dysgwyr, roedd 87.0% o ddysgwyr yn gwybod eu targedau a'u nodau, ac roedd 81.6% yn teimlo'u bod yn helpu i ddewis eu targedau. Fodd bynnag, yn ystod ymweliadau â cholegau, nodomfod ansawdd targedau yn rhy amrywiol, ar y cyfan. Nid oedd targedau'n gyson benodol, perthnasol, nac yn cael eu deall yn dda gan ddysgwyr,

ac nid oeddent yn cefnogi gwerthusiad ystyrlon o'r camau cynnydd bach y mae dysgwyr yn eu gwneud. Yn rhy aml, roedd gan golegau ddulliau anghyson o ddangos tystiolaeth o'r cynnydd mae dysgwyr yn ei wneud tuag at dargedau. Mewn ychydig o achosion, roedd hyn oherwydd nad oedd systemau electronig newydd ar gyfer monitro cynnydd wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn eto.


Dylai asesiadau gwaelodlin a thargedau gysylltu'n niongyrchol â deilliannau bwriadedig CDU i gefnogi adolygiad statudol ystyrlon. Pan nad yw deilliannau CDU yn briodol, dylai fod prosesau ar waith i'w diwygio'n brydlon mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg.

**Ffigur 6. Ymatebion i "Ydych chi'n gwybod beth yw eich targedau a'ch nodau dysgu?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 547 o ddysgwyr*

**Ffigur 7. Ymatebion i "Ydych chi'n gallu dewis eich targedau dysgu nesaf?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 548 o ddysgwyr*

## Cynnydd trwy'r llwybrau

I lawer o ddysgwyr, disgwylir eu bod yn symud ymlaen trwy'r llwybrau, hyd yn oed os nad yw hyn bob amser yn ddisgwyliad priodol. Er enghraifft, gallai dysgwyr symud ymlaen o lwybr 3 i lwybr 4 neu i gyrsiau prif ffrwd. I lawer o ddysgwyr, mae hyn yn cynrychioli cynnydd da tuag at gyrchfannau cadarnhaol yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn cynrychioli cynnydd da i bob dysgwr. Mae cynnydd trwy lwybrau ond yn berthnasol yng nghyd-destun nodau tymor hir y dysgwr a ph'un a yw hyn yn fuddiol ar gyfer ei gamau nesaf.

**Ffigur 8. Ymatebion i "Ydych chi'n hapus â'r cynnydd rydych chi'n ei wneud?":**



*Yn seiliedig ar ymatebion gan 549 o ddysgwyr*

### Addysg Oedolion Cymru: Gweithio mewn partneriaeth

Dechreuodd Addysg Oedolion Cymru bartneriaeth ag awdurdod lleol Ceredigion i gyflwyno cwricwlwm MBA i ychydig iawn o ddysgwyr lle na all Coleg Ceredigion ddiwallu eu hanghenion o fewn darpariaeth brif ffrwd. Mae arweinwyr yn dweud eu bod wedi datblygu perthnasoedd gwaith cryf o fewn yr awdurdod lleol, gan gynnwys gyda gofal cymdeithasol ac addysg, a gydag iechyd.

Er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bob dysgwr i ddiwallu ei anghenion a chynllunio ar gyfer cynnydd cadarnhaol, mae Addysg Oedolion Cymru yn gweithio gyda'r ystod o wasanaethau sy'n cefnogi dysgwr, gan gynnwys seicoleg addysg, y tîm anableddau dysgu, lleferydd ac iaith, therapi galwedigaethol a ffisiotherapi. Maent yn cwblhau asesiad ymddygiad addasol, y maent yn ei gysylltu â RARPA. Mae'r broses hon yn nodi pa fedrau sy'n gryf, yn ddatblygol a'r rhai nad ydynt yn bresennol. Mae'r wybodaeth hon yn llywio targedau dysgwyr.


Mae staff sy'n cyflwyno'r cwricwlwm MBA yn elwa ar yr un cyfleoedd dysgu proffesiynol â phob un o'r staff arbenigol o fewn yr awdurdod lleol yn ogystal â dysgu proffesiynol ehangach o fewn y sector MBA.

Yn ychwanegol, trwy gysylltiadau â'r awdurdod lleol, mae dysgwyr yn elwa ar ddarpariaeth estynedig gyda mynediad at ddarpariaeth gwasanaeth dydd ar y diwrnodau pan nad ydynt yn y coleg.

## Paratoi ar gyfer bywydau yn y dyfodol

Mae colegau wedi cryfhau eu hymagwedd at ystyried bywydau dysgwyr yn y dyfodol wrth gynllunio ar gyfer cynnydd. Yn ein harolwg, ymatebodd 100% o staff trwy ddweud eu bod yn ystyried llwybr dysgwyr yn y dyfodol wrth gynllunio sesiynau, a dywedodd 82.1% o ddysgwyr fod y coleg wedi eu helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Yn yr achosion gorau, roedd colegau'n casglu gwybodaeth am gynlluniau dysgwr yn y dyfodol pan roedd yn ymuno â chwrs, ac wedyn yn teilwra'u cwricwlwm o amgylch hyn.

**Ffigur 9. Ymatebion i "A yw'r coleg yn eich helpu i gynllunio ar gyfer eich bywyd ar ôl y coleg?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 543 o ddysgwyr*

Yn gyffredinol, roedd colegau'n darparu ystod o brofiadau dysgu realistig ac ystyrlon a oedd yn adeiladu ar fedrau dysgwyr. Er enghraifft, roedd dysgwyr llwybr 2 yn elwa ar dylino a thriniaeth dwylo gan ddysgwyr harddwch prif ffrwd. Roedd hyn yn eu helpu ag anghenion synhwyraidd, ymweld â lle newydd a chyfathrebu â phobl newydd. Cafodd dysgwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn fewnwelediad i gefnogi'r rhai ag anghenion cymorth ychwanegol.

Yn ein harolwg, roedd dysgwyr yn gadarnhaol am sut roedd y coleg yn eu helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol, a rhoesant enghreifftiau fel cyngor gyrfaoedd, meithrin annibyniaeth, adolygiadau CDU, targedu datblygiad medrau, creu cynlluniau gyrfa a'u cefnogi i gyflogaeth. Mae'r atebion hyn yn debygol o fod gan ddysgwyr ar lwybrau 3 neu 4, yn hytrach na'r rhai ar lwybr 1 neu 2 sy'n fwy tebygol o symud ymlaen i wasanaethau dydd, byw yn annibynnol neu waith gwirfoddol.

Fodd bynnag, roedd colegau weithiau'n canolbwyntio mwy ar gyrchfan penodol yn y dyfodol na chynnydd a deilliannau cynlluniedig o fewn rhaglenni dysgu. Er enghraifft, os yw dysgwr yn gadael coleg i symud ymlaen i fyw â chymorth, mae datblygiad medrau sydd wedi'i seilio'n llac ar realiti byw yn annibynnol yn llai ystyrlon na phan roedd wedi'i seilio ar werthusiad cadarn o fedrau presennol. Hefyd, dim ond tua hanner o'r dysgwyr hynny a ymatebodd i'n harolwg oedd yn gwybod beth roeddent yn bwriadu ei wneud ar ôl diwedd eu cwrs.

**Ffigur 10. Ymatebion i "Ydych chi'n gwybod beth fyddwch chi'n ei wneud ar ôl y coleg?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 549 o ddysgwyr*

### Coleg Sir Benfro: Cystadlaethau medrau

Mae dysgwyr o Academi Sgiliau Bywyd Coleg Sir Benfro yn cymryd rhan mewn cystadlaethau Sgiliau Byd ochr yn ochr â'u cyfoedion nad ydynt yn anabl. Mae'r coleg yn integreiddio'r cystadlaethau yn rhaglenni dysgu unigol dysgwyr a meysydd y cwricwlwm, gan gynnwys garddwriaeth, medrau'r cyfryngau, coginio, gofal plant a lletygarwch. Mae dysgwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am eu profiadau a'r medrau y maent wedi'u datblygu. Mewn ychydig o achosion, o ganlyniad i gymryd rhan yn y cystadlaethau, mae dysgwyr wedi sicrhau cyflogaeth.

## Sicrhau ansawdd a hunanwerthuso

At ei gilydd, gan fod colegau wedi symud oddi wrth ddysgu achrededig a thuag at gwricwlwm yn seiliedig ar fedrau, dywedodd arweinwyr wrthym eu bod wedi cydnabod yr angen am ymagwedd newydd at sicrhau ansawdd a hunanwerthuso adrannau MBA.

Yn y darparwyr mwyaf effeithiol, roedd proses sicrhau ansawdd hynod ffocysedig ar waith, a oedd yn cydnabod unigoliaeth y rhaglenni MBA ac wedi'i theilwra i gydnabod y cynnydd heb ei achredu y mae dysgwyr yn ei wneud. Roedd arweinwyr MBA yn y darparwyr hyn yn defnyddio dull fforensig ar gyfer eu prosesau sicrhau ansawdd. Roedd yr adran yn cael ei chynnwys yng nghylch sicrhau ansawdd y coleg, ond eto, roedd unigrywiaeth y cwrs yn cael ei gwerthfawrogi gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. O ganlyniad, roedd y ffocws ar brofiadau dysgu unigoledig yn cael ei werthfawrogi.

Yn y lleoliadau hyn, roedd arweinwyr yn cwblhau ystod o weithgareddau ac yn casglu tystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanwerthuso, gan gynnwys: mentrau llais y dysgwr, grwpiau ffocws, teithiau dysgu, adolygiadau cynnydd yn erbyn targedau, gwirio ansawdd gosod targedau a sicrhau ansawdd mewnol heb ei achredu (SAM). Roedd teithiau dysgu ac arsylwadau gwersi yn canolbwyntio'n addas ar yr effaith yr oedd staff addysgu a staff cymorth yn ei chael ar ddysgu, ac yn cydnabod yr angen i gael disgwyliadau sy'n wahanol i'r rhai mewn meysydd dysgu eraill.

Fodd bynnag, yn eu gwerthusiadau eu hunain, nododd mwyafrif o golegau fod monitro cynnydd a sicrhau ansawdd dysgu heb ei achredu yn faes i'w wella. Atgyfnerthwyd yr angen hwn yn yr arolwg staff. Er enghraifft, mewn ychydig iawn o golegau, roedd dulliau'n anghyson ar draws gwahanol gampysau ac nid oedd gwerthusiad cyfannol o MBA ar draws y coleg, dim ond o fewn campysau. Gwelsom ychydig iawn o dystiolaeth o rannu arfer orau yn y maes hwn rhwng colegau ac ysgolion arbennig.

Yn ychwanegol, nid oedd yn ymddangos bod systemau ehangach i fonitro cynnydd dysgwyr ar ôl iddynt adael y sefydliad addysg bellach ar gael yn hawdd i alluogi darparwyr i werthuso effaith y ddarpariaeth MBA yn y tymor hir.

### Coleg Castell-nedd Port Talbot: Pontio i mewn ac allan o'r coleg

Yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae Swyddogion Pontio dynodedig yn cefnogi cyfnodau pontio dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth MBA y coleg, o'r ysgol i'r coleg, ac o'r coleg i'w camau nesaf. Er enghraifft, maent yn gweithio'n agos gydag ysgolion ac awdurdodau lleol gan fynychu adolygiadau blynyddol dysgwyr o Flwyddyn 9. Maent hefyd yn cynorthwyo dysgwyr i gynllunio'u camau nesaf i gyrsiau eraill, cyflogaeth, gwirfoddoli neu weithgareddau eraill. O ganlyniad, mae gan y coleg ddealltwriaeth drylwyr o ADY dysgwyr a gall gynorthwyo dysgwyr yn well i gyflawni eu dyheadau ar ôl cyrsiau.

## Dysgu proffesiynol

Ar draws pob un o'r darparwyr yr ymwelom â nhw, roedd ffocws cyson ar ddysgu proffesiynol, cydweithio a rhannu arfer dda gyda cholegau eraill. Dywedodd lleiafrif o golegau fod cysylltiadau cryf o amgylch dysgu proffesiynol rhwng eu hadrannau MBA ac ADY, gan gynnwys cynlluniau dysgu proffesiynol wedi'u diweddaru yn seiliedig ar broffiliau dysgwyr newydd.

Roedd enghreifftiau cadarnhaol o ddysgu proffesiynol yn cynnwys 'cyfarfodydd addysgu' neu 'drionglau addysgu' gyda ffocws cryf ar arfer addysgu a chyfleoedd i drafod heriau o fewn adrannau.

Yn ein harolwg staff[5], dywedodd llawer o staff eu bod wedi derbyn dysgu proffesiynol i gefnogi â chyflwyno'r cwricwlwm MBA. Roedd yr hyfforddiant hwn yn fuddiol, ym marn bron pob un o'r staff. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid oedd gan ddarparwyr gynllun dysgu proffesiynol penodol ar gyfer adrannau MBA i adlewyrchu'r model cyflwyno gwahanol sy'n angenrheidiol. Hefyd, mewn colegau eraill, roedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n rhy amlwg ar systemau a gweithdrefnau yn hytrach nag ar ddiwallu anghenion dysgwyr. Roedd ychydig iawn o enghreifftiau o ddysgu proffesiynol ar y cyd, a darparwyr eraill yn gweithio gyda dysgwyr ôl-16 â phroffiliau tebyg – er enghraifft ysgolion arbennig.

Ar draws y rhan fwyaf o ddarparwyr, roedd gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar addysgu a dysgu yn wan.

### Coleg Sir Gâr: Dysgu proffesiynol

Mae staff addysgu a staff cymorth Coleg Sir Gâr yn cwblhau hunanwerthusiad ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, lle caiff anghenion dysgu proffesiynol penodol eu nodi. Maent yn cael cyfle i weithio mewn triawdau gyda chydweithwyr sy'n brofiadol yn y medrau y maent eisiau eu datblygu i wella'u harfer. Gall staff ymgymryd â'u prosiectau ymchwil weithredu eu hunain hefyd, y caiff eu canfyddiadau eu rhannu mewn Gŵyl Arfer flynyddol sy'n para deuddydd.

[5] Gweler ffigurau 17 ac 18 yn yr atodiad.

## Cysylltiadau ag ysgolion arbennig a gynhelir

Dywedodd mwyafrif y sefydliadau addysg bellach fod ganddynt gysylltiadau buddiol ag ysgolion arbennig a gynhelir, yn cynnwys darpariaeth ar y safle, yr oedd disgyblion hŷn o’r ysgolion hyn yn ei defnyddio yn rhan o’u haddysg ddyddiol.

Dywedodd arweinwyr o ysgolion arbennig a gynhelir a cholegau fod perthnasoedd yn gwella rhyngddynt, yn rhannol oherwydd diwygio ADY. Dywedodd ysgolion arbennig y cyfarfuom â nhw fod colegau’n gynyddol awyddus i ddeall anghenion dysgwyr newydd, a’u diwallu. Roedd y perthnasoedd cryfach hyn yn cael effaith fuddiol ar bontio ar gyfer dysgwyr pan fyddant yn ymuno â choleg, a dywedodd dysgwyr eu bod yn fwy cysurus yn amgylchedd y coleg ac yn cael eu paratoi’n well i ddod o hyd i’w ffordd o gwmpas ac addasu i amgylchedd dysgu gwahanol. Er gwaethaf y cynnydd hwn, roedd cydweithio strategol anghyson ledled Cymru, rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau i sicrhau parhad y cwricwlwm a chysondeb dulliau addysgu ac asesu.

Roedd ystyriaeth gyfyngedig i sut roedd y cwricwlwm yn cefnogi pontio, a oedd yn golygu bod dysgwyr yn ailadrodd cynnwys yn ddiangen yn hytrach nag adeiladu ar ddysgu blaenorol i ddatblygu medrau newydd. Mae llawer o ddysgwyr a’u teuluoedd yn dewis i’r person ifanc aros yn ei ysgol arbennig hyd nes bydd yn 19 mlwydd oed, ac yn ymuno â’r coleg ar ôl hyn. At ei gilydd, mae hyn yn briodol i lawer o ddysgwyr. Fodd bynnag, i ychydig o ddysgwyr, gallai gyfyngu ar fynediad at gyfleoedd sydd wedi’u cyfyngu i oedran, fel rhaglenni penodol yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd, er enghraifft Twf Swyddi Cymru+. Ar sail adborth gan ddysgwyr yn y coleg a phrofiadau staff y coleg, nid oedd y cyfleoedd hyn bob amser yn cael eu cyfleu’n glir i ddysgwyr tra roeddent yn dal yn yr ysgol, a allai fod wedi cyfyngu trwy amryfusedd ar eu hopsiynau yn y dyfodol.

### Canolfan Addysg Y Bont

Mae angen cynllunio a chymorth gofalus a chydlynus yn ystod cyfnod pontio dysgwyr o ysgol arbennig i goleg. Yng Nghanolfan Addysg Y Bont, mae staff yn canolbwyntio’u gwaith ar anghenion, nodau a dyheadau unigol penodol dysgwyr a’u rhieni neu’u gofalwyr. Mae trafodaeth drylwyr ac amserol yn galluogi i bob llais gael ei glywed.

Caiff opsiynau amrywiol ar ôl yr ysgol eu harchwilio a’u profi o Flwyddyn 9 ymlaen, gan gynnwys rhaglenni pontio cyffredin, presenoldeb ar gyrsiau cyswllt MBA, a sesiynau rhagflas wythnosol teilwredig a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer dysgwyr mwy cymhleth yn eu blwyddyn ysgol olaf. Mae’r rhain wedi cael croeso arbennig o dda, ac maent yn grymuso dysgwyr, rhieni a darparwyr i wneud penderfyniadau gwybodus gwell am lwybrau yn y dyfodol. Yn ei hanfod, mae cydweithio ystyrlon rhwng y cartref,

yr ysgol a'r coleg yn sail i bob agwedd ar sicrhau bod dysgwyr yn cael taith gadarnhaol a boddhaus i fywyd oedolyn.

Fodd bynnag, dywedodd arweinwyr ysgolion arbennig a gynhelir fod digwyddiadau pontio, yn cynnwys 'diwrnodau rhagflas', yn rhy aml yn dangos cyrsiau i ddisgyblion na fyddent yn gallu eu dilyn oherwydd gofynion mynediad cyrsiau. Gall hyn greu disgwyliadau afrealistig ac arwain at ddryswch i ddysgwyr a'u teuluoedd am lwybrau priodol a hygyrch yn y dyfodol.

Hefyd, dywedodd arweinwyr o'r ysgolion hyn eu bod yn teimlo'n rhwystredig fod disgyblion yn wynebu 'loteri cod post' wrth iddynt adael yr ysgol gan fod y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag ADY yn amrywio cymaint ledled Cymru. Roeddent yn teimlo bod hyn yn fwyaf heriol i'r dysgwyr sydd â'r anghenion dysgu ychwanegol mwyaf cymhleth. Amlygont bryderon am ostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n gallu pontio i golegau arbenigol annibynnol, a phryderon am y dysgwyr hynny sy'n rhoi'r gorau i fynychu sefydliadau addysg bellach, a'r diffyg cymorth ffurfiol sydd ar waith i'w hatal rhag dod yn rhai NACH (nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), neu barhau felly.

Mae colegau wedi ymateb i adroddiad thematig Estyn yn 2017 trwy leihau'r defnydd o unedau achredu. At ei gilydd, mae colegau bellach yn defnyddio achredu yn briodol, ac nid yw'n cael effaith negyddol ar ehangder y cynnig cwricwlwm mewn adrannau MBA. Yn hytrach, mae sefydliadau addysg bellach yn awr yn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau ehangach i baratoi dysgwyr yn well ar gyfer bywyd oedolyn. Mewn cyferbyniad, mae ysgolion arbennig a gynhelir yn aml yn defnyddio ystod o achrediad yn rhan o'u cwricwlwm. Mae'r gwahaniaethau hyn mewn ymagweddau at ddilysu yn peri risg camddealltwriaeth i rieni a dysgwyr o ran beth sy'n gyfystyrâ deilliant cadarnhaol. Er bod achredu'n gallu bod yn ffordd fuddiol o ddilysu datblygiad medrau, byddem yn nodweddiadol ond yn disgwyl i ddarparwyr gyflwyno unedau achredu i ddysgwyr lle mae'n ystyrlon ac y gallai fod o fudd i ddysgwyr yn y dyfodol, er enghraifft lle gallai helpu dysgwr i gael mynediad at addysg neu waith. Ar hyn o bryd, ceir tystiolaeth gyfyngedig o gydweithio rhwng colegau ac ysgolion arbennig a gynhelir yn gysylltiedig â defnydd ystyrlon a chyson o achredu.

## Effaith diwygio ADY

Dywedodd lleiafrif o golegau fod dysgwyr yn cyrraedd y coleg o hyd gyda chynlluniau dysgu a medrau (CDMau) a oedd yn cael eu defnyddio o dan y system AAA pan ddylai fod ganddynt CDUau erbyn hyn o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Dywedodd tua hanner y coleg fod CDMau yn cynnwys gwybodaeth fwy perthnasol yn y sector ôl-16 na Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a bod hyn wedi effeithio ar eu gallu i gynllunio i ddiwallu ADY dysgwyr unigol. Fodd bynnag, roedd colegau eraill yn croesawu CDUau ac yn teimlo'u bod yn ddogfennau buddiol ar gyfer cefnogi dysgu. At ei gilydd, mae hyn yn amlygu amrywioldeb CDUau ledled Cymru. Gall amrywioldeb mewn CDUau arwain at gymorth anghyson, bylchau mewn cynllunio a mynediad anghyfartal at adnoddau yn ystod cyfnod pontio o ysgolion i golegau. Gallai hyn rwystro dilyniant, lleihau ymgysylltiad dysgwyr, a thanseilio'r tegwch a fwriedir gan y system ADY.

Dywedodd bron pob un o'r colegau fod yr amser a gymerwyd i gwblhau prosesau i gyflawni eu rhwymedigaethau wedi mynd y tu hwnt i'w disgwyliadau. Er enghraifft, yr amser gweinyddol a gymerir i gasglu gwybodaeth a'r amser i gwblhau adolygiadau yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn nodi bod pwysau ar feichiau gwaith yn cael ei gymhlethu gan ddiffyg parhaus platfform electronig CDU Cymru gyfan, sy'n golygu bod rhaid i golegau rannu gwybodaeth yn aml gan ddefnyddio ystod o wahanol ddulliau a phlatfformau electronig.

Roedd cydweithio wedi cynyddu, ac roedd y rhan fwyaf o golegau'n gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach i gynllunio cyfnodau pontio llwyddiannus ar raglenni MBA. Dywed y rhan fwyaf o golegau eu bod yn gweithio'n rhagweithiol gydag ysgolion ac awdurdodau lleol, er enghraifft trwy fod yn rhan o weithgorau amlasiantaethol, mynychu fforymau rhanbarthol Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) a chysylltu â swyddogion arweiniol ôl-16 awdurdodau lleol. Fodd bynnag, er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, codwyd pryderon gan lawer o golegau am fynediad cyfyngedig at wybodaeth cyn-mynediad hanfodol am ddysgwyr. Mewn ychydig o achosion, mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn celu gwybodaeth oherwydd pryderon diogelu data, sy'n rhwystro cynllunio a chymorth effeithiol. Dywedodd un coleg wrthym, er mwyn goresgyn hyn, eu bod yn annog rhieni i lanlwytho CDUau i borth rhieni fel bod y coleg yn gallu cael mynediad at wybodaeth hanfodol. Soniodd rhai sefydliadau addysg bellach am brotocolau rhannu gwybodaeth effeithiol gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, a oedd yn fuddiol wrth bennu a yw coleg yn gallu diwallu'r angen a chefnogi pontio, hefyd. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rhannu yn rhy amrywiol o hyd. Gall yr amrywioldeb hwn

danseilio gallu colegau i asesu p'un a ydynt yn gallu diwallu anghenion dysgwyr ac mae'n peri risg cymhlethu effeithiolrwydd trefniadau pontio.

Er bod y rhan fwyaf o golegau yn dweud bod ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â'u Swyddogion Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) rhanbarthol, sy'n chwarae rôl werthfawr mewn cefnogi anghenion iechyd dysgwyr a chyflwyno hyfforddiant staff, mae pryderon nodedig. Mae lleiafrif o golegau wedi amlygu anghysondeb mewn lefelau cymorth, a gall hyn achosi rhwystredigaeth wrth ddiwallu anghenion iechyd neu therapiwtig dysgwr yn y cyfnod amser angenrheidiol. Er enghraifft, pan fydd angen cymorth lleferydd ac iaith neu gymorth ymddygiadol ar ddysgwr i ddiwallu ei ADY neu os oes angen ymyriadau arno i ddiwallu anghenion iechyd meddwl. Amlygont sut gall y symud o wasanaethau iechyd plant i oedolion gyd-fynd â chyfnodau pontio i'r coleg. Mae hyn yn golygu nad yw rhai dysgwyr efallai'n gymwys am gymorth therapiwtig penodol mwyach, a gall cyfnodau amser atgyfeirio ac asesu newydd fod yn hwy na chyfnod dysgwyr yn y coleg. Mae'r materion hyn yn peri risg tarfu ar barhad gofal a thanseilio gallu dysgwyr i fanteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg bellach.

### Coleg Gwent: Dogfen bontio gynhwysol â symbolau

Mae Coleg Gwent yn cydnabod bod y cyfnod pontio o'r ysgol i'r coleg weithiau'n gallu bod yn gyfnod heriol i bob dysgwr, ac yn enwedig i bobl ifanc sydd ag anawsterau ac anableddau dysgu. O ganlyniad, mae'r coleg wedi datblygu dogfen bontio gynhwysol sy'n cynnwys iaith â symbolau ar gyfer dysgwyr ag anawsterau cyfathrebu neu siaradwyr ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg. Mae'r canllaw'n cynnwys cod QR i alluogi dysgwyr i fynd ar deithiau rhithwir o gwmpas y campws, i'w helpu i wybod beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn ymweld. Mae'r cymorth hwn â symbolau a'r ymagwedd gynhwysol at wybodaeth yn cefnogi dealltwriaeth, lles ac ymreolaeth dysgwyr.

Soniodd lleiafrif o golegau am ddisgwyliadau gan awdurdodau lleol y dylent ddiwallu ystod ehangach o ADY o fewn eu darpariaeth medrau byw yn annibynnol (MBA) nag yr oeddent yn eu diwallu o'r blaen o dan y system anghenion addysgol arbennig (AAA). Mewn rhai achosion, mae'r disgwyliadau hyn yn afrealistig, ym marn colegau, neu maent yn teimlo'u bod yn rhoi pwysau cynyddol ar adnoddau sydd eisoes dan straen.

I'r gwrthwyneb, dywedodd lleiafrif o golegau eraill eu bod wedi cynyddu eu capasiti a'u harbenigedd yn effeithiol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ystod ehangach o ADY. Mae'n bwysig nodi nad yw coleg sy'n diwallu ystod ehangach o angen nag o'r blaen yn

adlewyrchu arfer orau, o reidrwydd. Pan mae colegau'n cynllunio i ddiwallu ystod ehangach o angen, yna byddai arfer orau'n cynnwys paratoi gofalus, sy'n cynnwys sicrhau tîm staff sydd â set gadarn o wybodaeth a medrau, yn ogystal â chynnig dysgu proffesiynol buddiol. Hefyd, mae perygl bod y colegau hynny sydd wedi ehangu eu darpariaeth yn cymryd risgiau wrth ddiwallu anghenion nad ydynt wedi'u harfogi'n dda ar eu cyfer. O ganlyniad, mae anghysondeb sylweddol yn parhau ledled Cymru o ran y graddau y gall y sector addysg bellach ddiwallu ADY amrywiol dysgwyr, gan arwain at fynediad anghyfartal at ddarpariaeth briodol, yn dibynnu ar leoliad daearyddol.

I fodloni nodau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn llawn, rhaid cael cydlynu cenedlaethol i sicrhau bod pob un o'r dysgwyr sy'n bodloni'r diffiniad o ADY yn derbyn CDUau amserol, o ansawdd uchel, a bod sefydliadau addysg bellach yn cael adnoddau a chymorth i gyflawni eu dyletswyddau statudol i gyflwyno, monitro ac adolygu DDdY mewn cydweithrediad â dysgwyr, teuluoedd ac awdurdodau lleol.

> **"Helpodd y coleg fi'n fawr i gael llawer o wahanol brofiadau."**
>
> **– Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**

### Cyfrifoldebau statudol

Ar sail trafodaethau ag arweinwyr colegau yn ystod ymweliadau thematig ac ymweliadau cyswllt, gwelsom fod gan y rhan fwyaf o golegau strwythurau a phrosesau addas ar waith i ddiwallu anghenion dysgwyr â chynlluniau datblygu unigol (CDUau). Fodd bynnag, amlygodd data a gyflwynwyd gan golegau fod dysgwyr mewn lleiafrif o golegau yn cyrraedd i ddilyn cyrsiau MBA heb CDUau. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi cael ei briodoli i'r ysgol arbennig neu'r UCD y mae dysgwyr wedi symud ymlaen ohoni, nad oedd wedi paratoi CDUau ar gyfer dysgwyr unigol ar sail y ffaith fod ei 'darpariaeth gyffredinol' yn diwallu ADY dysgwyr. Dywedodd lleiafrif o golegau fod diffyg dealltwriaeth ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, ysgolion a nhw eu hunain ynglŷn â pha ADY y gall colegau eu bodloni.

Dangosodd data a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg bellach yn hydref 2024 nad oedd CDUau gan leiafrif o ddysgwyr ar gyrsiau MBA, er bod y cyrsiau hyn wedi cael eu cynllunio ar gyfer dysgwyr ag ADY. Bydd rhai ohonynt wedi bod yn y coleg am flynyddoedd lawer, a bydd ganddynt gynllun dysgu a medrau (CDM); gallai rhai ohonynt fod wedi gwrthod cymryd rhan mewn prosesau ADY; fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd CDM na CDU gan rai dysgwyr MBA. O ganlyniad, ni roddwyd yr amddiffyniadau i'r lleiafrif hwn o ddysgwyr a ddaw yn sgil dogfen statudol. Yn ychwanegol, rhwystrwyd gallu'r coleg i werthuso ansawdd eu darpariaeth yn effeithiol gan nad ydynt yn rhan o brosesau ffurfiol ar gyfer gwerthuso ADY, er enghraifft trwy

adolygiadau blynyddol.

Dywedodd ychydig iawn o golegau wrthym nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn CDUau ar gael yn y coleg, o bryd i'w gilydd, er enghraifft cludiant i'r coleg ac oddi yno, neu ddarparu Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA). Er gwaethaf hyn, nododd colegau fod disgwyliad yn aml i ddysgwyr fynychu, hyd yn oed pan nad yw'r ddarpariaeth gytûn wedi cael ei rhoi ar waith. Mae hyn yn creu risg y gallai dysgwyr ddechrau eu haddysg bellach heb y cymorth sydd ei angen arnynt, gan effeithio o bosibl ar eu lles, eu hymgysylltiad a'u gallu i wneud cynnydd.

Yn hydref 2024, adroddodd colegau fod cynnydd yn nifer y dysgwyr yn rhoi'r gorau i ddilyn cyrsiau MBA dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, nid yw gwerthusiad pellach o'r wybodaeth hon yn ôl llwybr a ph'un a oedd achosion o roi'r gorau i ddilyn cyrsiau hefyd am resymau cadarnhaol yn cael eu casglu'n gyson ar draws colegau. Yn bryderus, pan fydd dysgwyr yn rhoi'r gorau i ddilyn cyrsiau ac yn dod yn rhai NACH, mae prosesau a threfniadau gyda'r awdurdod lleol i sicrhau darpariaeth amgen yn aml yn rhy aneglur. Mae anghysondeb ynghylch p'un a oes prosesau ar waith ar gyfer adolygu CDUau dysgwyr i sicrhau y gellir chwilio am DDdY briodol os ydynt yn rhoi'r gorau i addysg bellach. O ganlyniad, nid oes dull cyson ledled Cymru i gefnogi'r dysgwyr hynny ag ADY sy'n rhoi'r gorau i'w cyrsiau coleg, gan achosi perygl y bydd y dysgwyr mwyaf bregus yn dod yn rhai NACH.

### Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)

Adroddodd colegau fod CDUau ar eu cryfaf pan roedd ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol yn cydweithio, er enghraifft pan estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr colegau fynychu a chyfrannu at gyfarfodydd adolygu Blwyddyn 9 a Blwyddyn 10. Pan mae dysgwyr yn symud ymlaen i'r coleg o ysgolion nad ydynt yn bartneriaid neu o'r tu allan i'r sir, dywedodd colegau fod CDUau yn fwy tebygol o gyrraedd yn hwyr a bod gwybodaeth hanfodol neu gyfoes ar goll amdanynt. Er enghraifft, dywedodd un coleg nad oedd CDU yn cynnwys gwybodaeth am y ffaith fod gan ddysgwr nam ar y golwg. Mewn ychydig o achosion, o ganlyniad i hepgoriadau o'r fath, mae dysgwyr wedi rhoi'r gorau i ddilyn cyrsiau gan nad yw'r coleg, yn ddiarwybod iddo, wedi gallu diwallu ei ADY. Nododd colegau hefyd fod gweithdrefnau ar gyfer adolygu ac ailasesu DDdY dysgwyr yn yr amgylchiadau hyn yn aneglur, sy'n cynyddu'r risg o anghenion heb eu diwallu a tharfu ar ddysgu.

Dywedodd lleiafrif o golegau nad oedd deilliannau dysgu bwriadedig dysgwyr mewn CDUau weithiau'n briodol i leoliadau ôl-16, er enghraifft lle roedd y ffocws ar lawysgrifen, yn hytrach nag ar fedrau eraill y byddai eu hangen arnynt yn eu bywydau yn y dyfodol. Pan mae hyn yn digwydd, mae fel arfer oherwydd nad yw colegau wedi cymryd rhan yn adolygiadau pontio dysgwyr.

Dywedodd mwyafrif o golegau fod cynnal adolygiadau CDU ar gyfer dysgwyr blwyddyn gyntaf a blwyddyn olaf yn ystod tymor yr Hydref yn hynod werthfawr ar gyfer deall anghenion dysgwyr a chynllunio cyfnodau pontio, ond nodont hefyd fod eu cynnal yn ystod y cyfnod prysur hwn yn rhoi pwysau sylweddol ar feichiau gwaith staff. Dywedodd ychydig o golegau fod cyfyngiadau amser a beichiau gwaith mawr wedi achosi iddynt gynnal cyfarfodydd adolygu CDU ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Maent wedi dweud wrthym ni, er bod hwn yn ateb ymarferol, ei fod yn groes i nodau’r diwygiadau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac y byddai’n well ganddynt allu rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr.

Dywedodd lleiafrif o golegau nad oedd CDUau yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am ADY dysgwyr, mewn rhai achosion. O ganlyniad, dywedodd un coleg ei fod wedi ychwanegu pennawd ADY, sef ‘diagnosis sylweddol a phrif angen’, i sicrhau bod staff yn y coleg yn gallu deall ADY dysgwyr.

> **“Mae’r Coleg wedi fy helpu i beidio â theimlo mor nerfus.”**
>
> **– Dysgwr MBA yn ystod ymweliad â choleg, 2025**


### Deilliannau

Mae aliniad cyfyngedig rhwng y systemau a ddefnyddir gan golegau i fesur cynnydd dysgwyr ar gyrsiau MBA a’r systemau a ddefnyddir i fonitro’u cyfrifoldebau statudol fel adolygiadau CDU blynyddol. O ganlyniad, nid yw targedau a nodau dysgwyr yn cyd-fynd yn gyson â deilliannau bwriadedig CDU, ac mae lleiafrif o golegau’n cynnal cyfarfodydd adolygu lluosog.


## Atodiad: Data arolwg dysgwyr ac arolwg staff

Rhannwyd yr arolwg dysgwyr gyda phob sefydliad addysg bellach, ac mae ar gael yn ddwyieithog ac mewn fersiwn â symbolau. Rydym yn cydnabod efallai nad yw hyn yn hygyrch ar gyfer dysgwyr MBA. Daeth 576 o ymatebion i law. Rhannwyd yr arolwg staff gyda phob sefydliad addysg bellach, ac mae ar gael yn ddwyieithog. Daeth 88 o ymatebion i law.

**Ffigurau 1 a 2. Ymatebion i: "Ydych chi'n addysgu unrhyw ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf?" ac "Ym mha iaith y maent yn cael ei haddysgu?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 79 o staff*





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 20 o staff; dewisodd 2 aelod arall o staff y ddau opsiwn*

**Ffigur 3. Faint o ddysgwyr sydd wedi eu cofrestru ar bob llwybr?**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 12 o ddarparwyr*

**Ffigur 4. Ymatebion i "Ydych chi'n meddwl bod y llwybrau presennol yn diwallu anghenion dysgwyr MBA?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 77 o staff*

**Ffigur 5. Ymatebion i "A yw proffil y dysgwr MBA nodweddiadol wedi newid ers y pandemig?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 77 o staff*

**Ffigur 6. Ymatebion i "Ydych chi'n gwybod beth yw eich targedau a'ch nodau dysgu?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 547 o ddysgwyr*

**Ffigur 7. Ymatebion i "Ydych chi'n gallu dewis eich targedau dysgu nesaf?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 548 o ddysgwyr*

**Ffigur 8. Ymatebion i "Ydych chi'n hapus â'r cynnydd rydych chi'n ei wneud?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 549 o ddysgwyr*

**Ffigur 9. Ymatebion i "A yw'r coleg yn eich helpu i gynllunio ar gyfer eich bywyd ar ôl y coleg?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 543 o ddysgwyr.*

**Ffigur 10. Ymatebion i "Ydych chi'n gwybod beth fyddwch chi'n ei wneud ar ôl y coleg?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 549 o ddysgwyr*

**Ffigur 11. Ymatebion i "Ydych chi'n dysgu medrau newydd?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 550 o ddysgwyr*

**Ffigur 12. Ymatebion i "Ydych chi'n gweithio tuag at unrhyw gymwysterau neu achrediadau?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 542 o ddysgwyr*

**Ffigur 13. Ymatebion i "A yw staff yn deall pan fydd angen help arnoch chi?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 548 o ddysgwyr*

**Ffigur 14. Ymatebion i "Ydych chi'n gallu dewis dysgu yn Gymraeg?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 548 o ddysgwyr*

**Ffigur 15. Ymatebion i "A oes unrhyw un o'ch dysgwyr MBA wrthi'n gweithio tuag at gymhwyster neu achrediad ar hyn o bryd?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 78 o staff*


**Ffigur 16. Ymatebion i "Ydych chi'n hyderus fod dysgwyr yn eich lleoliad yn gwneud cynnydd mewn meysydd sy'n bwysig iddynt?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 79 o staff*


**Ymatebion i "Wrth gynllunio sesiynau, a ydych chi'n ystyried cyrchfan eich dysgwyr yn y dyfodol?": ymatebodd 100% (77 o staff) trwy ddweud "Ydw".**

**Ffigur 17. Ymatebion i "A ydych chi wedi derbyn dysgu neu hyfforddiant proffesiynol i'ch cynorthwyo i gyflwyno'r cwricwlwm MBA?":**





*Yn seiliedig ar ymatebion gan 78 o staff*

**Ffigur 18. Ymatebion i "Dywedoch chi eich bod wedi derbyn dysgu neu hyfforddiant proffesiynol i'ch cynorthwyo i gyflwyno'r cwricwlwm MBA. A oedd hyn yn fuddiol?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 54 o staff*

**Ffigur 19. Ymatebion i: "Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau wrth i ddysgwyr newydd gyrraedd y coleg gyda CDUau yn hytrach na chynlluniau dysgu a medrau (CDMau)?":**




*Yn seiliedig ar ymatebion gan 76 o staff*

## Dulliau a sail y dystiolaeth

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â 10 o'r 12 sefydliad addysg bellach yng Nghymru sy'n cynnig darpariaeth MBA ar hyn o bryd. Cynhaliwyd dau o'r rhain yn ddwyieithog. Roedd yr ymweliadau hyn yn cynnwys cyfarfod ag arweinwyr, cyfarfod â dysgwyr, teithiau dysgu a chraffu ar ddogfennau. Hefyd, defnyddiom dystiolaeth o'n gweithgarwch arolygu parhaus a'n hymweliadau cyswllt â cholegau addysg bellach.

Yn hydref 2024, estynnom wahoddiad i bob un o'r 12 sefydliad addysg bellach a oedd yn cynnig darpariaeth MBA lenwi arolwg ar-lein yn cwmpasu meysydd sy'n cynnwys nifer y dysgwyr MBA yn y darparwr ac ar bob llwybr, cyfran y dysgwyr sy'n astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser, pa lwybrau roedd pob darparwr yn eu cynnig, y cynnig cyfrwng Cymraeg, defnyddio cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr MBA, faint o safleoedd o fewn pob darparwr sy'n cynnig darpariaeth MBA, nifer y staff sy'n cynorthwyo dysgwyr MBA, cyfran y dysgwyr MBA sydd â CDU neu gyfwerth, pa ddarparwyr oedd â chysylltiadau ag ysgolion arbennig a gynhelir, y gyfradd achredu ar gyrsiau MBA, a chyfradd y dysgwyr MBA sydd wedi rhoi'r gorau i ddilyn eu cyrsiau dros y 3 blynedd ddiwethaf. Gwnaed hyn er mwyn llywio cynllunio'r ymweliadau. Rydym wedi cyfeirio at y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ond ddim yn cyhoeddi'r set ddata. Mae data swyddogol wedi'i gyhoeddi ar wefan Medr.

Cwblhaom ystod o drafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys: staff ColegauCymru, Medr, staff ôl-16 awdurdodau lleol, arweinwyr mewn ysgolion arbennig a gynhelir, asiantaethau interniaethau a gefnogir, a chyflogwyr interniaethau a gefnogir.

Casglom adborth gan staff a dysgwyr ar raglenni MBA trwy holiaduron dwyieithog, a oedd hefyd ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen â symbolau ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fyddai pob un o'r dysgwyr wedi gallu cyfleu eu hadborth yn llawn trwy ddefnyddio'r dull hwn oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol. Er mwyn lliniaru'r cyfyngiad hwn, buom yn cyfarfod â chroestoriad o ddysgwyr yn ystod pob ymweliad â sefydliad hefyd, a darparu arweiniad o fewn yr holiadur am sut gallai staff gynorthwyo dysgwyr i ddarparu eu hadborth. Hefyd, rydym yn cydnabod mai un o gyfyngiadau posibl yr holiadur yw'r ffaith nad yw'r dysgwyr hynny ar raglenni MBA nad ydynt yn nodi eu bod yn ddysgwyr MBA efallai wedi llenwi'r arolwg.

Adolygom ystod o ddogfennau a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg bellach, ColegauCymru a Medr. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau'r cwricwlwm, manylebau

rhaglen, astudiaethau achos, amserlenni, data am ddeilliannau dysgwyr ac adolygiadau cymheiriaid.

Yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 7-10-2024, edrychom ar wefannau'r darparwyr i werthuso defnyddioldeb a hygyrchedd y wybodaeth a ddarparwyd. Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn. Rhestrir y darparwyr yn yr adran dulliau a thystiolaeth.

Hoffai Estyn ddiolch i'r canlynol am gymryd rhan yn yr arolygiad thematig hwn:

- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gwent
- Coleg Sir Gâr
- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Castell-nedd Port Talbot
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Coleg Llandrillo Menai
- Coleg Cambria
- Coleg Merthyr
- Coleg Pen-y-bont
- Coleg Sir Benfro

## Mathau o gasglu tystiolaeth

| Darparwr | Cyflwyno tystiolaeth yn hydref 2024 | Ymweliad Thematig | Trafodaeth am ADY yn yr ymweliad cyswllt | Arolygiad | Cyfarfod ar-lein |
|---|---|---|---|---|---|
| Coleg Caerdydd a'r Fro | X | X | X | | |
| Coleg y Cymoedd | X | X | X | X | |
| Coleg Gwent | X | X | X | | |
| Coleg Sir Gâr | X | X | X | | |
| Addysg Oedolion Cymru | X | | | X | X |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | X | X | X | | |
| Coleg Gŵyr Abertawe | X | X | X | | |
| Grŵp Coleg Llandrillo | X | X | X | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Menai | | | | | |
| Coleg Cambria | X | X | X | | |
| Coleg Merthyr | X | | X | X | |
| Coleg Pen-y-bont | X | X | X | | |
| Coleg Sir Benfro | X | X | X | | |

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AB** | Addysg bellach |
| **ADDLl** | Anawsterau dysgu dwys a lluosog |
| **ADY** | Anghenion dysgu ychwanegol |
| **ADYTA** | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 – fframwaith statudol unedig ar gyfer nodi a diwallu anghenion dysgwyr ag ADY rhwng 0 a 25 oed yng Nghymru |
| **CDGOC** | Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru |
| **CDM** | Cynllun dysgu a medrau |
| **CDU** | Cynllun datblygu unigol |
| **CDY** | Cymorth dysgu ychwanegol (mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymorth ond nid ADY) |
| **CydADY** | Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol |
| **CEIM** | Anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl |
| **DDdY** | Darpariaeth ddysgu ychwanegol – y ddarpariaeth addysgol neu'r ddarpariaeth hyfforddiant sy'n angenrheidiol i ddiwallu ADY unigolyn, fel yr amlinellir yn ei CDU |
| **DECLO** | Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig |
| **Maes dysgu** | Yr adran o fewn y coleg addysg bellach lle cynhelir rhaglenni dysgu penodol |
| **Rhaglen ddysgu** | Ystod lawn y profiadau y caiff dysgwyr eu hariannu ar eu cyfer yn y coleg, yn cynnwys cymwysterau, profiad gwaith a chyfoethogi |
| **SAB** | Sefydliad addysg bellach |
| **SMART** | Penodol, mesuradwy, cyflawnadwy, perthnasol ac wedi'i gyfyngu gan amser |

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Y Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth gyda Chefnogaeth (BASE) (dim dyddiad) *Level 3 Certificate for Supported Employment Practitioners*. Ar gael yn: The British Association of Supported Employment (Darllenwyd: 27 Awst 2025).

Y Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth gyda Chefnogaeth (BASE) (dim dyddiad) *National Occupational Standards*. Ar gael yn: National Occupational Standards - The British Association of Supported Employment (Darllenwyd: 27 Awst 2025).

Y Gymdeithas Brydeinig dros Gyflogaeth gyda Chefnogaeth (BASE) (dim dyddiad) Supported Employment Quality Framework (SEQF) Model Fidelity. Ar gael yn: https://www.base-uk.org/SEQF_Model_Fidelity (Darllenwyd: 26 Ebrill 2025)

ColegauCymru (dim dyddiad) *Sgiliau Byw yn Annibynnol (ILS)* (dim dyddiad). Caerdydd: ColegauCymru. Ar gael yn: Sgiliau Byw yn Annibynnol (ILS) (Darllenwyd: 19 Medi 2024).

Estyn (2017) *Cynnydd a chyrchfannau dysgwyr mewn meysydd dysgu medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: Adroddiad arolwg thematig (Darllenwyd: 19 Medi 2024).

Estyn (2023) *Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/adroddiad-thematig-y-system-anghenion-dysgu-ychwanegol/ (Darllenwyd: 19 Medi 2024).

Estyn (2024) *Y system anghenion dysgu ychwanegol newydd: Cynnydd ysgolion ac awdurdodau lleol wrth gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol*. Caerdydd: Estyn. Ar gael yn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/adroddiad-thematig-y-system-anghenion-dysgu-ychwanegol/ (Darllenwyd: 19 Rhagfyr 2024).

Meek, A., Vigna, E. a Beyer, S. (2024) *Interniaethau cefnogol: Gwerthuso canlyniadau prosiect cenedlaethol gan ddefnyddio gwahanol fodelau o interniaeth i gefnogi pobl ifanc ag anableddau deallusol a phobl ifanc awtistig i gyflogaeth*. Caerdydd: Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: supported internships report English (Darllenwyd: 26 Awst 2025)

Mencap (2016) *Mental health*. Ar gael yn: https://www.mencap.org.uk/learning-disability-explained/research-and-statistics/health/mental-health (Darllenwyd: 26 Ebrill 2024).

Natspec (dim dyddiad) *Recognising and recording progress and achievement (RARPA)*. Ar gael yn: https://www.natspec.org.uk (Darllenwyd: 19 Medi 2024).

Senedd Cymru/Welsh Parliament (2025) *Bwlch Cyflogaeth Anabledd Cymru yr uchaf ym Mhrydain*. Ar gael yn: https://senedd.cymru/senedd-nawr/newyddion/bwlch-cyflogaeth-anabledd-cymru-yr-uchaf-ym-mhrydain/ (Darllenwyd: 19 Mawrth 2025).

UNESCO (2023) *Reworking the four pillars of education to sustain the commons.* Ar gael yn: https://www.unesco.org/en/articles/reworking-four-pillars-education-sustain-commons (Darllenwyd: 26 Ebrill 2024).

### Ar gyfer adolygu gwefannau

Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales *Hafan*. Ar gael yn: https://www.addysgoedolion.cymru/ (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Pen-y-bont *Hafan*. Ar gael yn: https://www.bridgend.ac.uk/?lang=cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC) *Hafan*. Ar gael yn: https://cavc.ac.uk/cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Cambria *Hafan*. Ar gael yn: https://www.cambria.ac.uk/?lang=cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Gwent *Hafan*. Ar gael yn: https://www.coleggwent.ac.uk/cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg y Cymoedd *Hafan*. Ar gael yn: https://www.cymoedd.ac.uk/?lang=cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Sir Gâr *Hafan*. Ar gael yn: https://www.csgcc.ac.uk/cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Gŵyr Abertawe *Hafan*. Ar gael yn: https://www.gcs.ac.uk/cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Grŵp Llandrillo Menai *Hafan*. Ar gael yn: https://www.gllm.ac.uk/cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Y Coleg Merthyr Tudful *Hafan*. Ar gael yn: https://www.merthyr.ac.uk/cy/ (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Grŵp Colegau NPTC *Hafan*. Ar gael yn: https://www.nptcgroup.ac.uk/cy/ (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).

Coleg Sir Benfro *Hafan*. Ar gael yn: https://www.pembrokeshire.ac.uk/?lang=cy (Darllenwyd: 9 Hydref 2024).